
Trwyddedu DAB ar raddfa fach

Sut byddai Ofcom yn defnyddio swyddogaethau newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 4 Gorffennaf 2019

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 3 Hydref 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir	3
3. Sut byddwn yn cynllunio'r sbectrwm gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach	6
4. Trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach: amodau a gofynion	20
5. Trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach: hysbysebu a dyfarnu trwyddedau	27
6. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: amodau a gofynion	36
7. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: ymgeisio a dyfarnu	44

1. Trosolwg

Mae DAB ar raddfa fach yn ffordd newydd o drawsyrro radio digidol. Mae'n defnyddio datblygiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol rad i ddarparu dull gweithredu hyblyg a fforddiadwy i ddarlledu gwasanaethau radio digidol yn diriogaethol i ardal ddaearyddol gymharol fach. Cafodd y cysyniad ei brofi am y tro cyntaf gan un o beirianwyr Ofcom, Rashid Mustapha, yn 2012. Yn dilyn hynny ariannodd y Llywodraeth gyfres o dreialon, a oedd wedi'u trwyddedu a'u hwyluso gan Ofcom, i brofi pa mor ymarferol yw'r dechnoleg. Roedd y treialon yn dangos bod DAB ar raddfa fach yn gallu bod yn ffordd gadarn a dibynadwy i orsafoedd analog bach ddarlledu ar ddigidol, yn ogystal â'r rheini sy'n dymuno lansio gwasanaethau radio newydd ar lwyfan tiriogaethol digidol.

Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Ar 20 Mehefin 2019, rhoddodd y Llywodraeth Offeryn Statudol ('y Gorchymyn') gerbron y Senedd Brydeinig a fyddai'n creu fframwaith ar gyfer trwyddedu DAB ar raddfa fach ar draws y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut mae Ofcom yn bwriadu trwyddedu DAB ar raddfa fach, drwy ddefnyddio'r pwerau newydd mae'r Llywodraeth, drwy'r Senedd Brydeinig, yn cynnig eu rhoi i ni.

Os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd Brydeinig, bydd y Gorchymyn yn rhoi'r pŵer i Ofcom drwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach¹ o dan fersiwn diwygiedig o Ddeddf Darlledu 1996. Bydd hyn yn golygu bod ystod ehangach o lawer o orsafoedd masnachol a chymunedol yn gallu darlledu ar lwyfan radio digidol DAB y DU. Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn caniatáu cyhoeddi trwyddedau Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP'), math newydd o drwydded sydd wedi'i dylunio ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol sy'n darlledu ar DAB.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi:

- Ein proses arfaethedig ar gyfer cynllunio a thrwyddedu sbectrwm ar gyfer trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.
- Ein proses drwyddedu arfaethedig ar gyfer trwyddedau C-DSP.

Rydym yn chwilio am safbwyntiau gan randdeiliaid ar nifer o faterion allweddol, gan gynnwys:

- Ein dull o ddatblygu cynllun ardal ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach.
- Sut rydym yn bwriadu hysbysebu trwyddedau C-DSP a thrwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.
- Sut byddwn yn asesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP a thrwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yw **dydd Iau 3 Hydref 2019**. Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad yn nodi ein casgliadau terfynol yn gynnar yn 2020, pan fyddwn ni'n bwriadu dechrau hysbysebu trwyddedau.

¹ Mae gwasanaethau amblecs yn fwndel o sianeli radio sydd wedi cael eu digideiddio a'u cywasgu er mwyn defnyddio llai o sbectrwm, sydd wedyn yn cael eu trawsyrru gan ddefnyddio un bloc amledd.

2. Cefndir

- 2.1 Dros y degawd diwethaf mae'r DU wedi gweld gostyngiad parhaus yn y nifer sy'n gwrando ar orsafoedd radio drwy'r bandiau AM ac FM analog traddodiadol². Mae gwrandawyr wedi bod yn symud i lwyfannau digidol gwahanol, ac mae radio digidol tiriogaethol ('Darlledu Sain Ddigidol', neu 'DAB') yn parhau i fod y mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gan gynrychioli 40.4% o'r holl wrando ar y radio yn y chwarter cyntaf 2019.
- 2.2 Ac ystyried bod mwy a mwy yn gwrando ar radio digidol yn ddiodyn, ers tro byd mae Ofcom wedi cydnabod y manteision i ddefnyddwyr drwy hwyluso llwybr mudo at DAB ar gyfer gorsafoedd radio masnachol a chymunedol analog bach. Rydym hefyd wedi cydnabod bod angen darparu llwybr fforddiadwy at ddarlledu drwy radio digidol tiriogaethol ar gyfer y rheini sy'n ymuno â'r farchnad, er mwyn darparu dewisiadau gwrando newydd ac arloesol i wrandawyr.
- 2.3 Ar hyn o bryd mae gwrandawyr radio yn y DU yn cael eu gwasanaethu gan amblecsau DAB lleol a chenedlaethol a phob un yn cludo amrywiaeth o wasanaethau rhaglenni digidol. Mae amblecsau DAB lleol yn amrywio o ran eu maint, gyda rhai yn darparu ar gyfer ardaloedd daearyddol a/neu boblogaethau mawr iawn.
- 2.4 Er bod bron i bob rhan o boblogaeth y DU eisoes mewn ardal ddarpariaeth go iawn neu ddarpar ardal ddarpariaeth amblecs DAB lleol, nid oes gan nifer o'r amblecsau hyn ddigon o gapasiti ar gyfer gorsafoedd ychwanegol, ac mae'n gallu bod yn ddrud cludo gorsaf radio unigol. Mae hyn yn arbennig o wir i nifer o orsafoedd radio masnachol a radio cymunedol llai, gan fod ardal ddarpariaeth yr amblecsau lleol cyfredol yn aml yn fwy o lawer na'r hyn sydd ei angen arnynt gan fod eu rhaglenni wedi'u bwriadu i apelio'n bennaf at bobl mewn un rhan o'r ardal (er enghraifft, un dref yng nghanol nifer sy'n cael eu gwasanaethu gan yr amblecs DAB lleol).
- 2.5 Gan adeiladu ar syniad gan un o beirianwyr Ofcom, Rashid Mustapha MBE, a phrofion datblygu technegol cychwynnol a gynhaliwyd gyda Juice 107.2, gorsaf radio fasnachol fach yn Brighton³, darparodd y Llywodraeth gyllid ar gyfer rhaglen waith ddwy flynedd o hyd gan Ofcom, i edrych ar ba mor ymarferol oedd y ffordd newydd o drawsyrnu DAB, sy'n cael ei galw yn 'DAB ar raddfa fach'. Mae DAB ar raddfa fach yn defnyddio datblygiadau mewn technoleg meddalwedd a thechnegau trawsyrnu newydd i ddarparu ffordd hyblyg a rhad o drawsyrnu'n ddigidol. O ganlyniad, mae'n addas i ddarparu darpariaeth sy'n fwy lleol yn ddaearyddol nag amblecsau DAB lleol cyfredol, a allai olygu ei fod yn fwy addas i anghenion gorsafoedd llai.
- 2.6 Cynhaliodd Ofcom 10 treial technegol o DAB ar raddfa fach mewn lleoliadau gwahanol ar draws y DU. Roedd y treialon wedi cael eu cynllunio i brofi pa mor ymarferol oedd technoleg DAB ar raddfa fach, ac roeddent yn cynnwys mwy na 100 o orsafoedd radio yn darlledu ar DAB am y tro cyntaf, gan gynnwys nifer o wasanaethau newydd. Roeddem wedi

² Mae cyfran analog (AM/FM) o wrando wedi disgyn o 67.5% yn RAJAR Ch1, 2009 i 43.6% yn RAJAR Ch1, 2019.

³ Capital (Brighton) bellach

- cyhoeddi gwerthusiad technegol o'r treialon ym mis Medi 2016. Daeth ein hadroddiad i'r casgliad bod y treialon wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cyflawni eu hamcanion, a oedd yn rhoi'r hyder i'r Llywodraeth ddeddfu i drwyddedu DAB ar raddfa fach ar sail nad oedd yn un dros dro. Ers hynny, rydym wedi parhau â'r treialon i ddarparu rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i ddatblygu fframwaith ar gyfer trwyddedu DAB ar raddfa fach.
- 2.7 Roedd y treialon technegol yn golygu cyhoeddi trwyddedau o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, ond cyfyngedig yw cwmpas y ddeddfwriaeth honno i gynnwys amodau trwydded yr oedd y Llywodraeth yn credu a oedd yn angenrheidiol i gefnogi darparu DAB ar raddfa fach yn ehangach o amgylch y wlad.
- 2.8 Roedd Deddf Darlledu (Gwasanaethau Amlblecs Radio) 2017 yn golygu bod modd creu fframwaith newydd i drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Fe wnaeth hynny drwy fewnosod adran 258A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003'), gan ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn addasu agweddau o Ddeddf Darlledu 1996 ('Deddf 1996') sy'n berthnasol i drwyddedu gwasanaethau amlblecs lleol a chenedlaethol er mwyn eu gwneud yn fwy priodol ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.
- 2.9 Ar ôl pasio'r Ddeddf, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar 4 Ionawr 2018 yn amlinellu cynigion i greu fframwaith i drwyddedu DAB ar raddfa fach. Ar 13 Hydref 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen polisi ['Small-scale DAB licensing consultation: Government response'](#). Roedd hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn nodi sefyllfa polisi'r Llywodraeth ar amrywiaeth o faterion. Ar ôl hynny, cafodd is-ddeddfwriaeth ei drafftio, a chyflwynwyd Gorchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019 (y 'Gorchymyn') gerbron y Senedd Brydeinig ar 20 Mehefin 2019.
- 2.10 Mae'r Gorchymyn yn arfer pwerau o dan adran newydd 258a o Ddeddf 2003 i gyflwyno fframwaith ar gyfer trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Mae hefyd yn defnyddio pwerau presennol o dan adrannau 262 a 402(3) o Ddeddf 2003 i ddarparu ar gyfer creu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol ('C-DSPs'). Yn y naill achos a'r llall, mae'r Gorchymyn yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio Deddf 1996 gydag addasiad i'r mathau o wasanaethau sydd wedi'u diffinio yn y Gorchymyn i gynnwys gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach neu wasanaethau C-DSP.
- 2.11 I bob pwrpas mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau C-DSP yn fersiwn digidol o'r drwydded radio cymunedol sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gorsafoedd analog (AM ac FM). Mae ganddo gysylltiad agos hefyd â'r fframwaith ar gyfer trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, oherwydd mae'r Gorchymyn yn addasu Deddf 1996 i fynnu bod capasiti yn cael ei gadw ar gyfer o leiaf tri gwasanaeth C-DSP ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, gan gefnogi'r "llwybr at ddigidol" i orsafoedd radio cymunedol sy'n rhan o bolisi'r Llywodraeth ar gyfer y sector.
- 2.12 Er mwyn rhoi'r drefn drwyddedu newydd ar waith yn ddiymdroi i gyflwyno DAB ar raddfa fach, mae Ofcom nawr yn ymgynghori ar sail y Gorchymyn fel y mae wedi cael ei osod gerbron y Senedd Brydeinig. Yn amlwg, petai'r Gorchymyn yn cael ei dynnu'n ôl, ei

ddiwygio a'i osod drachefn, efallai y bydd angen i ni ail ymgynghori, neu ddod â'r ymgynghoriad hwn i ben, fel sy'n briodol.

2.13 Mae'r ymgynghoriad hwn yn egluro sut mae Ofcom yn bwriadu gwneud y canlynol ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch hynny:

- Cynllunio defnyddio'r sbectrwm ar gyfer amblecsau radio ar raddfa fach (Adran 3)
- Trwyddedu'r gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach (Adrannau 4 a 5)
- Trwyddedu gwasanaethau C-DSP (Adrannau 6 a 7).

Asesiad o'r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.14 Gyda'i gilydd mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o'r effaith yn unol â'r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf 2003. Nid ydyn ni wedi canfod unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau cydraddoldeb (hy oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol). Nid ydym chwaith wedi gweld yr angen i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar wahân mewn perthynas â'r grwpiau cydraddoldeb ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon: cred grefyddol, barn wleidyddol a dibynyddion. Y rheswm am hyn ydy ein bod yn disgwyl na fydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn y ddogfen hon yn cael effaith wahaniaethol yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â gwrandawyr yng ngweddill y DU.

2.15 Rydym hefyd wedi ystyried Safonau'r Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisiâu fel sy'n cael ei amlinellu yn ei hysbysiad cydymffurfio. Mae'r safonau llunio polisiâu yn berthnasol ar yr adeg pan fyddan nhw'n cael effaith dim ots lle caiff y penderfyniad polisi ei wneud. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw un o'r cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Sut byddwn yn cynllunio'r sbectrwm ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach

3.1 Mae'r adran hon yn nodi sut mae Ofcom wedi delio â'r broses cynllunio sbectrwm ragarweiniol ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, canlyniad hyn yw'r cynllun ardal ddarpariaeth sydd yn Atodiad 1. Mae'n egluro'r gofynion cyfreithiol, yr egwyddorion cynllunio a'r cyfyngiadau maint, yn ogystal â'r dystiolaeth o alw, rydym wedi'u hystyried wrth lunio'r cynllun rhagarweiniol hwn. Mae hefyd yn nodi'r egwyddorion cynllunio y byddwn yn eu defnyddio yn ein gwaith yn y dyfodol wrth i ni fireinio'r cynllun ardal ddarpariaeth ac asesu ceisiadau am drwyddedau amblecsau radio ar raddfa fach.

Y gofynion cyfreithiol

- 3.2 Caiff cyfrifoldebau Ofcom ar gyfer rheoli sbectrwm eu nodi'n bennaf yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003') a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ('Deddf 2006').
- 3.3 Ein prif ddyletswyddau o dan adran 3 o Ddeddf 2003 yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu, a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i ni hefyd (ymysg pethau eraill) sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn cael eu darparu sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau. Wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni hefyd ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys pa mor ddymunol ydy hybu buddsoddiad ac arloesedd, pa mor ddymunol ydy hybu cystadleuaeth, a buddiannau pobl yng nghymunedau gwahanol y Deyrnas Unedig.
- 3.4 Wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, mae gennym ddyletswydd dan adran 3 o Ddeddf 2006 i ystyried yn benodol: (i) i ba raddau y mae'r sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio neu i'w ddefnyddio ymhellach ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y galw am ddefnydd o'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr a (iii) y galw sy'n debyg o godi yn y dyfodol ar gyfer defnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr. Mae gennym hefyd ddyletswydd, yn benodol, i ystyried pa mor ddymunol ydy hyrwyddo: (i) rheoli a defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y manteision economaidd a'r manteision eraill a allai godi o ddefnyddio telegraffiaeth ddi-wifr, (iii) datblygu gwasanaethau arloesol a (iv) cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig.
- 3.5 Yn sgil ein dyletswyddau i ystyried y galw, ar 27 Gorffennaf 2018 roeddem wedi cyhoeddi [cais am ddatganiadau o ddiddordeb i weithredu amblecsau DAB ar raddfa fach a/neu ddarparu gwasanaethau arnynt](#). Nid oedd y cais hwn yn rhwymo neb (Ofcom na'r rheini a ymatebodd) ond roedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn helpu ein proses gynllunio, ac roeddem wedi cyhoeddi [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 9 Tachwedd 2018.

- 3.6 Yn ogystal â'n dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â chynllunio sbectrwm, mae adran 50(2A) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn yn nodi'r materion y mae'r rhaid i Ofcom eu hystyried wrth bennu'n ardal neu'r ardal leol yr ydym yn cynnig dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach ar ei chyfer:
- a) *“y raddfa y mae galw am, a chefnogaeth ar gyfer, darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol a gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol yn yr ardal neu'r ardal leol”;*
 - b) *“a ydy'r ardal neu'r ardal leol yn briodol ar gyfer sicrhau darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol a gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol”;* a
 - c) *“pan fydd yr ardal neu'r ardal leol yn gorgyffwrdd ag ardal darpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol, pa mor ddymunol ydy sicrhau bod poblogaeth yr ardal sy'n gorgyffwrdd yn llai na 40 y cant o boblogaeth yr ardal ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaeth amlblecs radio lleol hwnnw”.*
- 3.7 Mae Adran 50(2)(b) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn hefyd yn mynnu bod Ofcom yn nodi'r amledd y bwriedir ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth.

Egwyddorion a methodoleg cynllunio sbectrwm

A ddylid darparu sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach

- 3.8 Cam cyntaf y broses gynllunio yw ystyried, gan gofio ein dyletswyddau, a ddylid dyrannu sbectrwm er mwyn darparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, gan nodi bod y pwerau a roddir o dan y Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu, ond nid yn mynnu, trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.
- 3.9 Mae nifer o resymau pam mae Ofcom yn credu ei bod hi'n briodol darparu sbectrwm ar gyfer amlblecsau DAB ar raddfa fach. Yn gyntaf, fel y nodir uchod, mae mwy a mwy o wrandawyr wedi symud i ffwrdd oddi wrth analog a thuag at lwyfannau digidol (DAB yn bennaf) er mwyn gwrandao ar y radio. Rydym yn credu bod DAB ar raddfa fach yn llwybr addas at ddigidol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau poblogaidd sydd eisoes ar waith sy'n cyfrannu at yr amrywiaeth eang o wasanaethau radio sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol a gwasanaethau masnachol llai sy'n darparu ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda ac ardaloedd lleol cymharol fach. Ar ben hynny, mae DAB ar raddfa fach yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer y rheini a allai fod eisiau ymuno â'r farchnad, gan gyfrannu at gystadleuaeth ac at yr amrywiaeth o wasanaethau radio sydd ar gael.
- 3.10 Mae'r tebygolrwydd y byddai'r dibenion hyn yn cael eu cyflawni yn cael ei ategu ymhellach gan nifer y datganiadau o ddiddordeb rydym wedi'u cael gan ddarpar ddarparwyr amlblecsau DAB ar raddfa fach a gwasanaethau rhaglenni, a gan lwyddiant y treialon DAB ar raddfa fach.
- 3.11 Rydym felly o'r farn ei bod hi'n briodol cynllunio er mwyn darparu DAB ar raddfa fach, ar y sail y byddai hyn yn debygol o fod yn ffordd effeithlon o ddefnyddio sbectrwm.

Defnyddio amledd

- 3.12 Yr ail gam yn y broses gynllunio yw dod o hyd i amleddau priodol i'w defnyddio gan wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach. Ar gyfer ein gwaith cynllunio rhagarweiniol, roedd Ofcom wedi defnyddio chwe bloc amledd (7D, 8A, 8B, 9A, 9B a 9C) o'r rhan o'r sbectrwm sy'n cael ei alw yn VHF Band III is-fand 2 yn brif sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach. Mae'r blociau hyn i gyd yn rhai mae modd eu defnyddio i drawsyrnu gwasanaethau radio digidol darlledu i unrhyw offer sydd wedi'i alluogi ar gyfer DAB ond, dros y blynyddoedd diwethaf, dim ond nifer bach o drwyddedeion radio busnes sydd wedi bod yn eu defnyddio, ac yn nodweddiadol maent wedi defnyddio'r sbectrwm ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd (er enghraifft, rhwng bysiau a'u canolfan reoli). Yn 2015, rhoddodd Ofcom hysbysiad i'r trwyddedeion hynny a oedd ar ôl y byddai eu trwyddedau'n dod i ben ym mis Mehefin 2020, ac rydym wedi dod o hyd i sbectrwm arall yn y VHF Band III is-fand 1 y byddai modd i'r defnyddwyr hynny fudo iddo.
- 3.13 Ni fyddwn yn defnyddio'r blociau amledd 8C na 8D ar gyfer DAB ar raddfa fach oherwydd bod y blociau hynny'n gorgyffwrdd â chyfran o sbectrwm sy'n cael ei defnyddio gan y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE). Nid ydym yn cynnig newid yr amleddau sy'n cael eu defnyddio gan y trwyddedeion PMSE hynny a fydd yn gallu parhau i ddefnyddio eu hoffer presennol.
- 3.14 Pan fydd Ofcom yn credu bod angen sbectrwm ychwanegol, neu pan na fydd y sbectrwm uchod ar gael, rydym hefyd yn bwriadu ymchwilio i ddefnyddio sbectrwm rhwng blociau 10B i 12D ar VHF Band III is-fand 3. Ar hyn o bryd mae'r sbectrwm hwn yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau amblecs DAB cenedlaethol a lleol, er nad ydy rhai blociau yn yr ystod hon yn cael eu defnyddio mewn rhai ardaloedd daearyddol a byddem ond yn defnyddio'r blociau hyn ar gyfer DAB ar raddfa fach i'r graddau na fyddai hynny'n effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr presennol.
- 3.15 Mewn rhai ardaloedd yn y Deyrnas Unedig, nid oes gwasanaeth amblecs radio lleol wedi cael ei drwyddedu eto. Ym mhob un o'r lleoliadau hyn, mae bloc amledd sydd wedi'i ddylunio i gynnal gwasanaeth o'r fath eisoes wedi cael ei gydlynu'n rhyngwladol. Bydd y blociau amledd hyn sydd wedi cael eu cydlynu'n cael eu cadw ar gyfer posibilrwydd eu defnyddio yn y dyfodol gan wasanaethau amblecs radio lleol. Yn ddiweddar mae Ofcom wedi hysbysebu trwyddedau amblecs radio lleol gan ddefnyddio blociau amledd o'r fath yn yr ardaloedd canlynol nad oes ganddynt wasanaeth amblecs radio lleol eto: Bae Morecambe, Gogledd a Gorllewin Cumbria, De-orllewin yr Alban ac Ynysoedd y Sianel. Petai modd i ni ddyfarnu trwyddedau amblecs radio lleol ym mhob un o'r ardaloedd hyn, dim ond dwy ardal o'r DU fyddai heb wasanaeth amblecs radio lleol⁴.

⁴ Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i drwyddedu gwasanaethau amblecs radio lleol ar gyfer ardal Gororau gogledd Lloegr/de'r Alban nac Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, oherwydd diffyg galw gan ymgeiswyr posibl.

Diffinio ardaloedd darpariaeth ac ardaloedd trwyddedig

3.16 Rydym yn cynnig bod ardal ddarpariaeth gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn cael ei diffinio gan yr ardal lle mae disgwyl y bydd ei thrawsryrdd/trawsryddion yn darparu cryfder maes o 63 dB μ V/m o leiaf, sy'n cyfateb i lefel sy'n ddigonol ar gyfer rhoi derbyniad dan do⁵. Yr ardal ddarpariaeth hon fydd yr ardal drwyddedig ar gyfer y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach⁶. Ni fydd yr ardal ddarpariaeth/drwyddedig yn cynnwys yr ardaloedd lle mae gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ond yn darparu'r hyn sy'n cael ei alw yn ddarpariaeth yn yr awyr agored, neu symudol (ee i dderbynyddion mewn cerbydau)⁷.

Diogelu gwasanaethau rhag ymyriant

3.17 Bydd gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach sy'n defnyddio un o'r chwe bloc amledd is-fand 2 wedi'i gyfyngu i drawsyrdd dim mwy na 38 dB μ V/m i'r ardal(oedd) ddarpariaeth o unrhyw wasanaeth(au) amblecs radio DAB ar raddfa fach arall drwy ddefnyddio'r un bloc amledd⁸. Pan fydd gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn defnyddio bloc amledd is-fand 3 (blociau 10B i 12D) bydd y lefel hon yn disgyn i 29 dB μ V/m er mwyn diogelu darpariaeth symudol gwasanaethau amblecs radio cenedlaethol neu leol. Yn yr un modd, yn gyffredinol gall y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ddisgwyl cael ymyriant am i mewn o ddim mwy na 38 dB μ V/m o wasanaethau amblecs radio eraill sy'n defnyddio'r un bloc amledd, ac eithrio mewn rhannau bach o'i ardal drwyddedig. Gan ein bod yn disgwyl y bydd angen defnyddio'r nifer cyfyngedig o amleddau sydd ar gael mewn ffordd ddwys ar gyfer DAB ar raddfa fach, ni fyddwn yn gallu diogelu'r derbyniad symudol yn yr awyr agored rhag ymyriant.

3.18 Byddwn yn parhau i adolygu'r lefelau sy'n diffinio darpariaeth a'r ymyriant a ganiateir ac efallai byddwn yn cynnig diwygiadau os cawn dystiolaeth y byddai'n fanteisiol gwneud hynny. Bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu hegluro pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.

Teclyn cynllunio

3.19 Mae Ofcom yn bwriadu defnyddio'r meddalwedd cynllunio ICSTelecom ar gyfer y broses gynllunio. Dyma'r teclyn rydym eisoes yn ei ddefnyddio i asesu'r cynlluniau technegol sy'n

⁵ Mae manylion y lefelau cynllunio yn [Dull o gynllunio darpariaeth DAB](#).

⁶ Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa sy'n berthnasol i wasanaethau amblecs radio cenedlaethol a lleol, oherwydd bod yr ardal drwyddedig yn ardal sy'n cael ei diffinio gan Ofcom pan gaiff y drwydded ei hysbysebu. Ardal ddarpariaeth gwasanaeth amblecs radio cenedlaethol neu leol ydy'r ardal y mae'r gwasanaeth yn ei chyrraedd go iawn, ac fel rheol mae'n gyfran o'r holl ardal drwyddedig.

⁷ Ar gyfer amblecsau cenedlaethol a lleol, rydym hefyd yn ystyried derbyniad awyr agored symudol sy'n cyfateb i gryfder maes o 54 dB μ V/m. Ac ystyried eu hardaloedd darpariaeth llai, rydym o'r farn y bydd derbyniad symudol yn llai pwysig ar gyfer amblecsau ar raddfa fach, ac oherwydd y disgwylir y bydd amleddau'n cael eu haildefnyddio'n ddwys, ni fyddwn yn gallu diogelu derbyniad symudol yn yr awyr agored ar gyfer DAB ar raddfa fach rhag ymyriant.

⁸ Bydd ardaloedd bach lle eir dros y terfyn hwn yn cael eu caniatáu, ar yr amod eu bod yn fach wrth gymharu â'r ardal ddarpariaeth drwyddi draw a bod hyn wedi'i gyfyngu'n bennaf i dir uchel neu ardaloedd heb boblogaeth.

cael eu cynnwys mewn ceisiadau am drwyddedau amblecs radio lleol a chenedlaethol⁹. Ar hyn o bryd mae'r meddalwedd ar gael yn fasnachol i unrhyw un sy'n dymuno ei ddefnyddio i lunio eu rhagfynegiadau darpariaeth eu hunain, neu i wneud cais am ddadansoddiad o ragfynegiad unigol gan Spectrum Center (ATDI gynt), darparwr y meddalwedd.

- 3.20 Mae rhagor o wybodaeth am y gosodiadau penodol a ffurfweddiad y teclyn cynllunio rydym yn bwriadu ei ddefnyddio i fodelu ac asesu darpariaeth yn Atodiad 1.
- 3.21 Gall Ofcom ddefnyddio teclynnau cynllunio eraill er mwyn cynllunio amledd ac asesu darpariaeth yn y dyfodol. Os byddwn yn penderfynu gwneud hynny, byddwn yn rhoi manylion y teclyn cynllunio rydym yn disgwyl ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am amblecsau.

Mesur y boblogaeth a wasanaethir

- 3.22 Mae'r tybiaethau rydym yn eu defnyddio ar ddarpariaeth poblogaeth yn berthnasol oherwydd yr angen i gymhwyso adran 50(2A)(c) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn, gan fod hon yn cyfeirio at ba mor ddymunol ydy sicrhau bod poblogaeth ardal o orgyffwrdd rhwng amblecs DAB ar raddfa fach ac amblecs DAB lleol yn llai na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig yr amblecs DAB lleol. Rydym yn bwriadu mesur y boblogaeth sy'n gallu derbyn gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ar sail y boblogaeth oedolion (15+ oed) yn yr ardal y mae disgwyl iddi dderbyn cryfder maes o 63 dBµV/m o leiaf o drawsryddion yr amblecs ar raddfa fach.

Maint amblecs: y paramedrau

- 3.23 Bwriad amlwg adran 50(2A)(c) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei diwygio gan y Gorchymyn yw bod poblogaeth y gorgyffwrdd rhwng ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ac ardal gwasanaeth amblecs radio lleol yn llai na 40% fel rheol o gyfanswm poblogaeth ardal y gwasanaeth amblecs radio lleol. Fodd bynnag, nid yw'n gosod terfyn absoliwt ond mae'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd (hy mae'n cyfeirio at "pa mor ddymunol" yw aros o fewn y lefel honno, yn hytrach na mynnu hynny ym mhob achos).
- 3.24 Mae'n bwysig bod yn glir iawn ynghylch yr hyn mae'r ffigur o 40% yn cyfeirio ato. Yn benodol, dyma faint y mae poblogaeth oedolion ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs ar raddfa fach yn gorgyffwrdd ag ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio lleol presennol. Felly, nid ydym yn asesu maint cyffredinol poblogaeth ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs ar raddfa fach mewn perthynas â phoblogaeth gwasanaeth amblecs radio lleol, ond dim ond maint y gorgyffwrdd sy'n gymharol i faint y boblogaeth yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amblecs radio lleol.
- 3.25 Mewn perthynas â'r hyblygrwydd mae Ofcom yn ei gadw i fynd dros y ffigur 40%, rydym yn cynnig gwneud hynny dim ond mewn eithriadau pan fydd y ddau fater arall y mae'n rhaid i ni eu hystyried (fel y nodir ym mharagraff 3.6 uchod) yn rhoi rhesymau cryf dros wneud

⁹ Er enghraifft, gweler para 4.14 o Hysbyseb 2015 o Drwydded Amblecs Radio Lleol ar gyfer Suffolk: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0030/57594/suffolk_lrm1_advertisement_notice.pdf

hynny. Er enghraifft, gallai cydymffurfio'n haearnidd â'r ffigur o 40% mewn un achos danseilio priodoldeb golygyddol yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach a/neu allu'r ardal i ddiwallu'r gofynion ar gyfer cludo gan drwyddedeion DSP lleol neu C-DSP. Gall hyn fod yn berthnasol lle byddai glynu'n gaeth wrth y ffigur o 40% yn anochel yn golygu naill ai eithrio rhan sylweddol o boblogaeth tref, neu greu hollt artiffisial mewn ardal drefol sydd eisoes yn gymharol fach ac y mae'n amlwg yn briodol i wasanaethau o'r fath ddarparu ar eu cyfer, mewn ffordd a fyddai'n golygu bod cwmpas ardal y drwydded yn llai deniadol o lawer ar gyfer gwrandawyr a darparwyr y gwasanaeth rhaglenni.

- 3.26 Nid oedd unrhyw un o'r ardaloedd trwyddedig gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach posibl (rydym wedi galw'r rhain yn 'polygonau' at ddibenion cynllunio) a oedd yn y cynllun ardal ddarpariaeth sydd yn Atodiad 1 yn gorgyffwrdd mwy na 40% o boblogaeth unrhyw wasanaeth amblecs radio lleol.
- 3.27 Mewn ardaloedd lle rydym yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach ar eu cyfer a lle nad oes gwasanaeth amblecs radio lleol presennol neu arfaethedig, ni fydd y ffigur 40% yn berthnasol yn uniongyrchol. O dan reoliad 3(b)(ii) o'r Gorchymyn, mewn amgylchiadau lle nad oes gorgyffwrdd, mae ardal ddarpariaeth fwyaf gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach wedi'i chyfyngu i 7,500 cilometr sgwâr, cap uchel sy'n cydnabod y ffaith bod yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn bennaf yn rhai prin eu poblogaeth a gwledig. Mewn achosion o'r fath, rydym hefyd yn cynnig cofio'r egwyddor sy'n sail i'r cyfyngiad 40%, sef sicrhau y byddai'r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn yr ardal honno yn ategu yn hytrach na dyblygu darpariaeth unrhyw wasanaeth amblecs radio lleol posibl yn y dyfodol. Er nad yw'n realistig cyfrifo union ddarpariaeth gwasanaeth amblecs radio lleol damcaniaethol, byddem serch hynny'n ystyried y gallai ardal heb wasanaeth amblecs radio lleol presennol fod ag un yn y dyfodol.
- 3.28 Wrth ystyried y galw a'r gefnogaeth debygol ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach (fel sy'n ofynnol gan adran 50(2A)(a) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn), rydym wedi ystyried y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd yn flaenorol i ddarparu gwasanaethau radio amblecs ar raddfa fach a gwasanaethau rhaglenni ar amblecsau o'r fath, yn ogystal ag ystyried ardaloedd ddarpariaeth gwasanaethau radio analog presennol a allai fod eisiau darlledu ar DAB ar raddfa fach.
- 3.29 Fodd bynnag, dylid nodi nad ydy'r datganiadau o ddiddordeb yn rhwymo, a'u bod wedi cael eu gwahodd gan Ofcom cyn i'r Llywodraeth gadarnhau'r ffigur 40%. Pan roedd datganiadau o ddiddordeb yn mynegi ardaloedd mwy na'r hyn y byddai'r ffigur 40% yn ei ganiatáu, rydym wedi'u hystyried fel tystiolaeth o'r galw gan ddarpar ddarparwyr gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny. Rydym wedi eu hystyried yn ein gwaith cynllunio rhagarweiniol drwy eu cynnwys mewn dwy neu dair o ardaloedd llai a fyddai'n disgyn o fewn y paramedrau a ganiateir.
- 3.30 Wrth gwrs, ceir hefyd gyfyngiadau ymarferol ar sail y sbectrwm sydd ar gael. Pan fyddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer ardal neu ardal leol rydym wedi'i nodi mewn hysbyseb am drwydded, gallwn ond ystyried y cynigion technegol sydd o fewn y terfynau a bennir gan y cyfyngiadau cynllunio technegol yn yr ardal benodol honno.

- 3.31 Nid yw'r Llywodraeth wedi pennu maint lleiaf ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn y Gorchymyn. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae adran 50(2A)(b) yn cyfeirio at sicrhau bod yr ardal neu'r ardal leol yn "briodol" i gynnal gwasanaethau C-DSP a DSPs lleol. Rydym yn ystyried bod hyn yn golygu cael cydbwysedd rhwng sicrhau bod ardal o faint sy'n addas i gynnal gwasanaethau llai sy'n ei chael hi'n anodd darlledu ar DAB ar hyn o bryd (oherwydd byddai hynny'n golygu talu am ardal ddarpariaeth sy'n fwy o lawer na chymuned darged yr orsaf), ar yr un pryd â sicrhau nad ydy'r ardal mor fach y gallai hyfywedd y gwasanaethau rhaglenni a'r gwasanaeth amblecs radio ei hun fod yn y fantol.
- 3.32 Rydym hefyd yn ymwybodol o gyfrifoldebau trosfwaol Ofcom mewn perthynas â defnyddio sbectrwm yn effeithlon, a'r ffaith mai dim ond amblecsau sy'n hyfyw yn economaidd sy'n gallu darparu'r manteision economaidd a'r manteision eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r sbectrwm sydd ar gael ar gyfer radio digidol ar raddfa fach.
- 3.33 Cafwyd rhai datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ardal fach iawn, roedd radiws rhai yn llai na 1km (ac roedd eu poblogaeth yn fach iawn hefyd). Yn gyffredinol, rydym yn meddwl ei bod yn annhebygol iawn y gallai ardaloedd bach o'r fath fod yn ymarferol ac ni fyddent yn golygu bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Nid yw'r datganiadau o ddiddordeb hynny felly wedi cael eu cynnwys yn ein gwaith cynllunio, er y bydd y rhan fwyaf o'r ardaloedd bach iawn a gynigir ynddynt yn cael eu cynnwys yn un o'n polygonau cynllunio. Fodd bynnag, efallai fod achosion eithriadol, fel o amgylch canolfannau milwrol, lle mae ystyriaethau gwahanol yn berthnasol. Nid ydym felly'n cynnig y dylid cael ardal ddarpariaeth sylfaenol y byddai'n rhaid i'r cynllun technegol a gyflwynir gan ymgeisydd am drwydded amblecs radio ar raddfa gydymffurfio â hi. Yn hytrach, rydym yn cynnig y dylai ymgeiswyr nodi y byddem ond yn debygol o drwyddedu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach sydd ag ardal ddarpariaeth fach iawn mewn amgylchiadau eithriadol.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a'r methodolegau cynllunio y byddwn yn eu defnyddio yn ein gwaith i fireinio'r cynllun ardal ddarpariaeth ar gyfer DAB ar raddfa fach?

Adnabod y galw mewn ardaloedd lleol gwahanol

- 3.34 Wrth i Ofcom gynllunio defnyddio sbectrwm bydd yn ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y galw nawr a'r galw yn y dyfodol gan ddefnyddwyr uniongyrchol y sbectrwm, sef gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn yr achos hwn. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn dibynnu ar y galw gan ddefnyddwyr anuniongyrchol, sef gwasanaethau rhaglenni sain yn yr achos hwn, ac mae'n rhaid i ni ystyried hyn yn benodol hefyd o dan adran 50(2A)(b) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei diwygio gan y Gorchymyn.
- 3.35 Y llynedd, roedd Ofcom wedi gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb mewn darparu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach a/neu wasanaethau rhaglenni i ddarlledu arnynt. Fe wnaethom hyn i helpu'r broses gynllunio, drwy roi syniad i ni o'r lefelau tebygol o alw mewn ardaloedd lleol gwahanol. Roedd y datganiadau o ddiddordeb felly'n gyfraniad pwysig at ein cynllun ardal ddarpariaeth drafft.

- 3.36 Roeddem wedi pwysleisio na fyddai datganiadau o ddiddordeb yn trosglwyddo unrhyw hawliau, ac ni fyddent yn golygu ei bod yn rhaid i'r ymatebwyr wneud cais am drwydded yn y dyfodol.
- 3.37 Cyflwynwyd dros 700 datganiad unigol o ddiddordeb, a oedd wedi cael eu rhannu fel a ganlyn:
- Darparu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach
 - Darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol yn unig
 - Darparu gwasanaeth amblecs radio a gwasanaeth rhaglenni sain digidol
- 3.38 Cafwyd nifer o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer rhai lleoliadau gan ddarparu ddarparwyr gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach. Ac ystyried mai dim ond hyn a hyn o sbectrwm sydd ar gael, yn gyffredinol ni fydd hi'n bosibl trosi'r nifer o ddatganiadau o ddiddordeb yn nifer o wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach a fyddai'n darlledu i'r un ardal.
- 3.39 Mewn ardaloedd eraill, roeddem wedi cael datganiadau o ddiddordeb i ddarparu gwasanaethau rhaglenni, ond dim datganiadau o ddiddordeb i ddarparu gwasanaeth amblecs cyfatebol a allai gludo'r gwasanaethau rhaglenni hynny. Rydym wedi ceisio cynllunio gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ym mhob un o'r ardaloedd hyn, gan dybio y byddai gweithredwr amblecs yn dod ymlaen yn y man.
- 3.40 Lle nad oedd datganiadau o ddiddordeb yn cyfateb i'r gofynion a nodwyd gan Ofcom (er enghraifft, lle'r oedd ffin ardal ddarpariaeth ar goll ond rhoddwyd rhagamcan o ddarpariaeth neu ddisgrifiad llafar) rydym wedi ceisio ystyried hyn gorau gallem ni ar sail yr hyn roeddem yn ei ystyried a oedd yn cael ei fwriadu.
- 3.41 Rydym yn cydnabod nad datganiadau o ddiddordeb ydy'r unig arwydd o'r galw. Roedd ambell ardal heb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb, er bod gwasanaethau radio analog yn yr ardal nad ydynt yn darlledu ar DAB ar hyn o bryd. Rydym wedi adolygu'r ardaloedd hyn fel rhan o'r gwaith o gynllunio sbectrwm, ac rydym wedi cynnwys darpariaeth dybiannol ar gyfer y gorsafoedd hyn lle mae adnoddau sbectrwm yn caniatáu.
- 3.42 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r cynnydd yn y diddordeb (a'r cynnydd mewn poblogaeth) mewn rhai ardaloedd lleol, ac ardaloedd sy'n rhannu nodweddion ag ardaloedd lle mae'r galw yn uchel. Ar ben hynny, fel sydd eisoes wedi cael ei nodi, mae argaeledd sbectrwm ac ystyried y galw nawr ac yn y dyfodol hefyd yn ffactor perthnasol. Mae'r datganiadau o ddiddordeb wedi arwain ein gwaith felly ac nid ei gyfarwyddo'n llwyr.

Ynsoedd y Sianel

- 3.43 Cafodd Ofcom bum datganiad o ddiddordeb i ddarparu amblecs radio ar raddfa fach a/neu wasanaethau rhaglenni sain yn Ynsoedd y Sianel. Ni fydd y Gorchymyn a gyflwynir i'r Senedd Brydeinig yn berthnasol i'r ddwy feiliaeth sy'n llywodraethau eu hunain sy'n cynrychioli Ynsoedd y Sianel (Beiliaeth Jersey a Beiliaeth Guernsey) oni bai a hyd nes y bydd yn cael ei fabwysiadu ganddynt yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae Ofcom wedi cynnwys Ynsoedd y Sianel yn ein hymarfer cynllunio, gan nodi'r diddordeb a gafwyd, er mwyn i ni

allu bwrw ymlaen yn weddol ddiymdroi os bydd yr awdurdodaethau hynny'n penderfynu mabwysiadu'r ddeddfwriaeth.

- 3.44 Dylai'r rheini sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau rhaglenni digidol i Ynysoedd y Sianel hefyd nodi bod Ofcom yn ddiweddar wedi [hysbysebu trwydded amblecs radio lleol ar gyfer Ynysoedd y Sianel](#), a'n bod yn disgwyl dyfarnu'r drwydded hon yn nes ymlaen eleni.

Trwyddedau amblecs radio lleol newydd

- 3.45 Fel rhan o'n gwaith cynllunio rhagarweiniol sy'n cael ei ddisgrifio yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi asesu faint o'r sbectrwm sydd ar gael ym mhob ardal gwasanaeth amblecs radio lleol presennol y mae'n debyg y bydd ei angen er mwyn darparu ar gyfer yr ardaloedd darpariaeth amblecs radio ar raddfa fach dybiannol rydym wedi'u datblygu. Ym mhob un o'r ardaloedd gwasanaeth amblecs radio lleol hynny, rydym hefyd wedi asesu a oes digon o sbectrwm ar gyfer gwasanaeth amblecs radio lleol ychwanegol ar raddfa debyg i'r gwasanaeth amblecs radio lleol sydd eisoes yn bodoli.
- 3.46 Nid oes gan y DU hawliau rhyngwladol i ddefnyddio'r chwe bloc amledd rydym wedi'u nodi ar gyfer DAB ar raddfa fach ar bŵer uchel, nac mewn ardaloedd sy'n ffinio â gwledydd cymdogol (fel arfordiroedd de a dwyrain Lloegr). Ni fyddai'n ymarferol felly defnyddio'r amleddau hynny mewn nifer o ardaloedd ar gyfer rhagor o wasanaethau amblecs radio lleol drwy ddefnyddio'r un math o rwydwaith trawsyrru â sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau amblecs radio lleol presennol (hy defnyddio nifer bach o drosglwyddyddion sydd â phŵer cymharol uchel).
- 3.47 Fodd bynnag, mae ein gwaith rhagarweiniol yn awgrymu bod cyfleoedd posibl mewn rhai ardaloedd i gynllunio gwasanaethau amblecs radio lleol ychwanegol ochr yn ochr ag amblecsau radio ar raddfa fach, drwy ddefnyddio'r bloc amledd 10B ac uwch. Serch hynny mae rhyngweithiad cryf rhwng darparu gwasanaethau amblecs radio lleol ychwanegol a'n gallu i drwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, oherwydd bydd y ddau yn defnyddio'r un gronfa gyfyngedig o sbectrwm.
- 3.48 Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl mai'r ardaloedd canlynol fydd yr ardaloedd sydd â digon o sbectrwm i gefnogi DAB ar raddfa fach a gwasanaethau amblecs radio lleol ychwanegol:
- y rhan fwyaf o'r Alban;
 - Gogledd Iwerddon;
 - Tyneside a Teesside yng ngogledd ddwyrain Lloegr;
 - Un o; Bradford, Leeds neu Ogledd Swydd Efrog a
 - Dyfnaint a Chernyw yn ne-orllewin Lloegr.
- 3.49 Byddai angen cytundebau cydlynu rhyngwladol arnom gyda'r gwledydd cymdogol ynghylch defnyddio'r amleddau hyn cyn i ni allu ystyried hysbysebu trwyddedau amblecs radio lleol newydd. Mae Atodiad A3 yn nodi ein dadansoddiad rhagarweiniol. Fodd bynnag, gall

rhagor o waith cynllunio ddatgelu bod mwy neu lai o gyfleoedd i ddarparu ar gyfer rhagor o wasanaethau amblecs radio lleol.

- 3.50 Rydym yn bwriadu blaenoriaethu adnoddau ar y cam hwn ar gynllunio a thrwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, cyn cynllunio ar gyfer unrhyw wasanaethau amblecs radio lleol ychwanegol neu ddefnyddio'r sbectrwm mewn ryw ffordd arall. Mae hyn yn adlewyrchu ein blaenoriaeth polisi sef darparu llwybr at drawsyrro digidol tiriogaethol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol a masnachol analog llai, ac mae'n cydfynd â bwriadau polisi'r Llywodraeth wrth osod y Gorchymyn.
- 3.51 Byddwn yn adolygu'r cyfleoedd i ddarparu ar gyfer gwasanaethau amblecs radio lleol ychwanegol ar sail fesul rhanbarth dim ond ar ôl i ni drwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn y rhanbarthau hynny, a'n bod yn gallu cadarnhau bod sbectrwm ar gael i drwyddedu rhagor o wasanaethau amblecs radio lleol, gan gynnwys yr ardaloedd sydd wedi cael eu rhestru yn 3.48 uchod. Pan fydd digon o sbectrwm i ddarparu ar gyfer gwasanaethau amblecs ar raddfa fach a rhagor o wasanaethau amblecs radio lleol, byddwn yn ystyried a oes galw oddi wrth ddarpar ymgeiswyr ar gyfer rhagor o drwyddedau amblecs radio lleol yn yr ardaloedd hynny.

Cynllun ardal ddarpariaeth

- 3.52 Ar ôl defnyddio'r egwyddorion a'r fethodoleg cynllunio sbectrwm sy'n cael eu disgrifio yn y bennod hon, rydym wedi datblygu cynllun o ardaloedd amblecs DAB ar raddfa fach. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o ardaloedd (rydym yn eu galw yn 'polygonau') sy'n cael eu dangos ar y mapiau a'r tablau yn Atodiad 1. Mewn dwy ardal o'r wlad rydym wedi diffinio 'ardaloedd macro' mwy. Bydd ein ffordd o drwyddedu fymryn yn wahanol yn yr ardaloedd macro hyn, fel rydym yn ei ddisgrifio isod.
- 3.53 Rydym wedi ceisio dyrannu polygon i bob lleoliad lle'r oeddem wedi derbyn datganiad o ddiddordeb. Mewn ardaloedd lle'r oedd nifer o ddatganiadau o ddiddordeb, rydym wedi cynllunio polygon sy'n ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng dyheadau darpariaeth y datganiadau gwahanol hynny o ddiddordeb.
- 3.54 Ar gyfer pob un o'r polygonau, rydym wedi modelu'r ymyriant a allai fod i bolygonau eraill. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo faint o amleddau y gallai fod eu hangen yng ngwahanol ardaloedd y wlad, ac rydym wedi cymharu hynny â faint o sbectrwm sydd ar gael.

Ardaloedd sydd â digon o sbectrwm (ardaloedd polygon)

- 3.55 Mewn sawl rhan o'r DU, mae digon o sbectrwm i ni fod yn weddol hyderus y byddwn yn gallu dyrannu amledd ar gyfer pob polygon heb achosi na chael gormod o ymyriant i neu gan bolygonau eraill sy'n defnyddio'r un amledd mewn rhannau eraill o'r DU. Ein bwriad yw hysbysebu ac, a thybio y cawn geisiadau derbyniol, dyfarnu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach ym mhob un o'r ardaloedd hyn. Nid yw'r ardaloedd darpariaeth arfaethedig hyn yn nodi pa safleoedd trawsyrro y mae'n rhaid eu defnyddio, gan ein bod yn disgwyl y

bydd cynigion safle yn rhan o'r cynllun technegol a gyflwynir gan ymgeiswyr am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.

Ardaloedd lle mae sbectrw m yn brin (ardaloedd macro)

- 3.56 Mewn rhai ardaloedd lle ceir llawer o alw, mae'n ymddangos nad oes digon o amleddau er mwyn rhoi amledd i bob polygon. Yn yr ardaloedd hynny, rydym wedi clystyru darpar bolygonau gyda'i gilydd yn ein cynllun i greu 'ardaloedd macro'. Ein bwriad yn yr ardaloedd hynny yw gwahodd ceisiadau am drwyddedau mewn sypiau gan bartïon sy'n dymuno darparu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ar gyfer unrhyw ardal neu ardal leol ar sail y polygonau sydd yn yr ardal facro.
- 3.57 Bydd angen i'r ymgeiswyr nodi pa leoliadau maent eisiau eu gwasanaethu, y ddarpariaeth maent yn bwriadu ei chyflawni yn yr ardal facro, a safleoedd y trosglwyddyddion maent yn bwriadu eu defnyddio i gyflawni'r ddarpariaeth honno. Pan fyddwn yn hysbysebu trwyddedau yn y ffordd hon, ni fyddai mor hawdd i ni bennu'r cyfyngiadau ymyriant rhwng polygonau yn yr ardal facro ymlaen llaw. Bydd angen i gynigion ymgeiswyr adlewyrchu pa mor ddymunol ydy peidio'n arferol â mynd dros y lefel gorgyffwrdd o 40% ag ardal drwyddedig unrhyw wasanaeth amblecs radio lleol. Byddwn yn mynnu bod cynlluniau technegol arfaethedig yr ymgeiswyr yn cydymffurfio â'r trothwy hwn.

Ystyriaethau rhyngwladol

- 3.58 Mae defnyddio sbectrw m, gan gynnwys ar gyfer darlledu radio, yn rhwym wrth gytundebau rhyngwladol sy'n ceisio osgoi gormod o ymyriant rhwng gwasanaethau mewn gwledydd cyfagos. Mae'r DU ar gamau gwahanol o drafodaethau gyda'i gweinyddiaethau cyfagos yng Ngweriniaeth Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd ynghylch y cynlluniau maent yn eu datblygu ar gyfer amblecsau radio DAB a chynlluniau'r DU ar gyfer DAB ar raddfa fach. Mae'r cynlluniau sydd wedi'u nodi yn yr ymgyngoriad hwn yn seiliedig ar ein disgwyliad cyfredol o ran defnyddio sbectrw m yn y dyfodol. Efallai y bydd angen rhagor o newidiadau pan fyddwn yn cydlynu ein gofynion ar gyfer DAB ar raddfa fach yn y DU ymhellach gyda'n cymdogion, neu hyd yn oed cyn hynny. Mae rhagor o wybodaeth am faterion Cydlynu Rhyngwladol ar gael yn Atodiad 2.

Safonau technegol gofynnol

- 3.59 Mae Adran 43(1)(b) o Ddeddf 1996 yn caniatáu cynnwys amodau mewn trwyddedau amblecs radio sy'n galluogi Ofcom i oruchwylio a gorfodi safonau technegol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth a drwyddedir.
- 3.60 Ar ben hynny, mae adran 54(1)(g) o Ddeddf 1996 fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn yn mynnu'r canlynol ar gyfer trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, *"rhaid i'r signalau sy'n cludo'r gwasanaeth amblecs radio gyrraedd safonau rhesymol o ran ansawdd technegol a dibynadwyedd drwy cymaint o'r ardal neu'r ardal leol lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel sy'n rhesymol ymarferol ar y pryd"*.

- 3.61 Mae amodau mewn trwyddedau amblecs radio cenedlaethol a lleol yn mynnu bod y trwyddedeion hynny'n cydymffurfio â [Chod Technegol Radio Digidol](#) Ofcom (ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yng [Nghanllawiau Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amblecs DAB](#) y cyfeirir atynt drwy'r Cod).
- 3.62 Bydd y gofynion deddfwriaethol ar gyfer trwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach (os cânt eu pasio gan y Senedd Brydeinig ar eu ffurf bresennol) yn debyg iawn i'r rheini sy'n berthnasol i drwyddedeion amblecsau radio cenedlaethol a lleol. Rydym felly'n cynnig, fel amod i'r drwydded, y bydd angen i drwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach sicrhau bod yr amblecs a'r gwasanaethau rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn cyd-fynd â'r trefniadau technegol sy'n cael eu disgrifio yn y Cod Technegol (a'r Canllawiau Technegol). Fodd bynnag, byddwn yn diwygio'r Cod Technegol Radio Digidol i adlewyrchu'r gofynion statudol sydd fymryn yn wahanol sy'n berthnasol i amblecsau ar raddfa fach.
- 3.63 Yn benodol, rydym yn cynnig addasu paragraff 3.3 o'r Cod Technegol i adlewyrchu'r gofyniad i wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach gyflawni 'safonau rhesymol', sy'n wahanol i'r gofynion ar gyfer gwasanaethau amblecs radio cenedlaethol a lleol. Rydym hefyd yn cynnig diwygio'r Canllawiau i gadarnhau na fydd Ofcom yn rheoleiddio nodweddion sain gwasanaethau ar amblecsau radio ar raddfa fach. Mae Atodiad 6 yn cynnwys manylion ein diwygiadau arfaethedig i'r Cod a'r Canllawiau.

Gofyniad i ddefnyddio DAB+

- 3.64 Mae modd trawsyrru gwasanaethau rhaglenni sain digidol drwy ddefnyddio'r fersiwn gwreiddiol o DAB, neu'r dechnoleg DAB+ newydd. Mae DAB+ yn defnyddio amgodio sain sy'n fwy modern na DAB ac mae'n golygu bod modd defnyddio capasiti amblecs yn fwy effeithlon. Mae hyn yn golygu, ar gyfer ansawdd sain cyfatebol, mae modd i amblecs DAB+ gludo mwy o wasanaethau nag amblecs DAB.
- 3.65 Cawsom lawer iawn o ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth ddarpar ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni sy'n awgrymu y bydd llawer o alw am gapasiti ar wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach. O ganlyniad, mae Ofcom yn credu ei bod hi'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn gallu darparu lle ar gyfer cynifer o wasanaethau rhaglenni ag sy'n rhesymol bosibl drwy ddyluniad.
- 3.66 Mae Adran 49A o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn yn mynnu bod Ofcom yn cadw capasiti o'r fath fel rydym yn credu sy'n briodol er mwyn darparu lle ar gyfer o leiaf tri o wasanaethau C-DSP. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni ddeall yr effeithlonrwydd ar gyfer amgodio gwasanaethau. Byddai gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach sy'n defnyddio DAB+ yn galw am lai o gapasiti wrth gefn ar gyfer yr un nifer o wasanaethau, ond byddai angen pennu DAB+ yn y trwyddedau er mwyn sicrhau bod digon o le yn cael ei gadw.
- 3.67 Rydym yn cydnabod bod rhai setiau radio (yn enwedig rhai hŷn) ond yn gallu derbyn gwasanaethau DAB ac nid ydynt yn gydnaws â DAB+. Fodd bynnag, mae nifer y setiau sy'n gallu cael gwasanaethau DAB+ yn parhau i gynyddu drwy gyfuniad o'r [Cynllun Marc Tic Radio Digidol](#) (sydd, ers 2014, yn mynnu bod offer derbynyddion sy'n cydymffurfio yn

ymgorffori DAB+) ac mae mwy o setiau radio DAB+ mewn ceir newydd (roedd 93% o geir newydd yn y DU yn cynnwys radio DAB+ fel mater o drefn yn 2019¹⁰). Rydym hefyd yn gwybod bod wyth o'r deg amblecs ar raddfa fach treial yn cludo'r mwyafrif o'u gwasanaethau rhaglenni mewn DAB+. Nid ydym yn credu felly y byddai mynnu bod amblecsau DAB ar raddfa fach yn gweithredu dim ond drwy ddefnyddio DAB+ yn rhwystro llawer iawn o wrandawyr rhag mwynhau'r gwasanaethau hynny, a byddai'n cynyddu nifer ac amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael i wrandawyr sydd â setiau DAB+.

- 3.68 Rydym felly'n cynnig diwygio ein [Cod Technegol Radio Digidol](#) i gynnwys amod sy'n mynnu y dylai gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach weithredu drwy ddefnyddio DAB+ yn unig. Mae darpariaethau Deddf 1996 fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn yn caniatáu ar gyfer amod o'r fath, gan fod adran 54(1)(a) yn galluogi amodau trwydded sy'n mynnu bod y gwasanaeth amblecs radio yn cael ei ddarparu'n unol â'r cynllun technegol a ddarparwyd yn unol ag adran 50(4)(b), a byddem yn defnyddio ein pwerau o dan adran 50(3) i ddarparu canllawiau ar y gofynion sydd i'w diwallu gan geisiadau am drwyddedau, gan gynnwys bod y cynllun technegol yn seiliedig ar DAB+. Mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig i eiriau'r Cod Technegol yn Atodiad 6.

Polareiddio signal

- 3.69 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd Ofcom fersiynau wedi'u diweddarau o'i God Technegol Radio Digidol a'i Ganllawiau, yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Er nad ydym yn ymgynghori'n benodol ar wneud newidiadau i'r gofynion ar gyfer y polareiddio signal sy'n cael ei ddefnyddio gan drosglwyddyddion DAB, cawsom rai ymatebion a oedd yn awgrymu y dylem ganiatáu defnyddio polareiddio llorweddol yn ogystal â fertigol (dim ond polareiddio fertigol mae'r Cod yn ei ganiatáu ar hyn o bryd).
- 3.70 Er bod polareiddio cymysg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darlledu FM, mae'r amgylchiadau'n wahanol i'r rheini ar gyfer DAB ac ni allem weld achos cryf dros ganiatáu defnyddio polareiddio llorweddol. Yn benodol, mae angen i ddarllediadau FM ddarparu ar gyfer sylfaen erialau derbyn ar ben toeau sydd wedi cael eu polareiddio'n llorweddol am resymau hanesyddol. Mae erialau sydd wedi'u polareiddio'n llorweddol yn well na rhai fertigol wrth ddelio â signalau sy'n cael eu hadlewyrchu (yn enwedig mewn ardaloedd bryniog a mynyddig) sy'n effeithio ar signalau analog fel FM.
- 3.71 Nid yw'r naill gyfyngiad na'r llall yn berthnasol i DAB, gan nad oes sylfaen wedi'i gosod o erialau derbyn llorweddol ac yn gyffredinol mae erialau ceir yn fertigol. Mae DAB hefyd yn dechnoleg sy'n anwybyddu adlewyrchiadau i raddau helaeth. Byddai ychwanegu cydran llorweddol at drawsyrro yn golygu bod gosod antena yn fwy cymhleth, byddai'n golygu bod trosglwyddyddion yn defnyddio mwy o bŵer a byddai hynny'n cael mwy o effaith ar yr amgylchedd, a gallai gynyddu'r costau ar gyfer trwyddedeion. Ein cynnig cychwynnol felly ydy parhau i fynnu mai dim ond polareiddio fertigol sy'n cael ei ddefnyddio.

¹⁰ Ffynhonnell: [WorldDAB Digital Radio Europe and Asia Pacific](#)

- 3.72 Fodd bynnag, rydym yn agored i dderbyn unrhyw dystiolaeth o fanteision neu anfanteision ychwanegu cydran llorweddol ar gyfer DAB ar raddfa fach, neu ar gyfer gwasanaethau DAB yn fwy cyffredinol. Byddwn yn adolygu ein sefyllfa o ran polareiddio signalau ac yn ystyried caniatáu defnyddio polareiddio llorweddol yn ogystal â pholareiddio fertigol os byddwn yn cael dystiolaeth y byddai'n fuddiol gwneud hynny.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig yng nghyswllt yr amodau trwydded technegol gofynnol ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, a'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod Technegol Radio Digidol?

4. Trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach: amodau a gofynion

- 4.1 Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y cymhwysedd i ddal trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach a'r amodau a fydd ynddynt. Mewn sawl ffordd, byddai'r Gorchymyn yn cymhwyso Deddf 1996 heb addasiadau, ac felly byddem yn cynnig cynnwys amodau trwydded safonol sy'n debyg iawn i'r rheini sydd wedi cael eu cynnwys mewn trwyddedau amblecs radio lleol a chenedlaethol.
- 4.2 Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle byddai'r Gorchymyn yn addasu Deddf 1996, neu lle mae ystyriaethau mymryn yn wahanol yn berthnasol i drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ac, yn benodol:
- Cymhwysedd ychwanegol a chyfyngiadau ar berchenogaeth
 - Hyd trwyddedau, a'r broses adnewyddu
 - Y dyddiad cau ar gyfer lansio gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, ar ôl dyfarnu'r drwydded
 - Ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy i Ofcom
 - Gofynion ar gyfer cadw capasiti ar amblecsau
 - Gofynion gwybodaeth o ran y ffioedd cludo a'r gwasanaethau sy'n cael eu cludo

Cymhwysedd ychwanegol a chyfyngiadau ar berchenogaeth sy'n berthnasol i drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach

- 4.3 Os caiff ei chymeradwyo gan y Senedd Brydeinig bydd Adran 44A o Ddeddf 1996 fel y'i diwygir gan y Gorchymyn yn cynnwys nifer o waharddiadau a all atal ymgeisydd rhag dal trwydded amblecs radio ar raddfa fach yn ogystal â'r rheini sy'n gwneud cais am wasanaethau amblecs radio yn gyffredinol (yn benodol y rheini sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 Deddf Darlledu 1990).
- 4.4 Rydym wedi crynhoi'r cyfyngiadau isod, ond yn nodi eu bod yn weddol gymhleth. Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor annibynnol wrth wneud cais, yn enwedig y rheini sydd â chysylltiad â phobl sydd â thrwyddedau amblecs radio cenedlaethol, trwyddedau gwasanaeth darlledu sain cenedlaethol, trwyddedau amblecs radio lleol, neu (maes o law) nifer o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach yn yr un ardal ddaearyddol.
- 4.5 Mae'r Gorchymyn yn datgan na chaiff y canlynol ddal trwydded amblecs radio ar raddfa fach:
- a) Person nad yw'n "gorff corfforaethol" (adran 44A(1)(a)). Byddai'n anarferol iawn i unigolyn neu gymdeithas anghorfforedig ddal trwydded amblecs sut bynnag, ond mae hyn yn cael ei wahardd yn benodol yn y Gorchymyn.
 - b) Corff corfforaethol sy'n dal mwy na 20% o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach (adran 44A(1)(b)). Bwriad y ddarpariaeth hon ydy osgoi crynhoi perchnogaeth gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach.

- c) Corff corfforaethol lle mae unigolyn yn gyfranogwr pan fydd yr unigolyn hwnnw yn gyfranogwr mewn cyrff corfforaethol sy'n dal mwy na 20% o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach (adran 44A(1)(c)). Bwriad hyn hefyd ydy osgoi crynhoi perchnogaeth.
 - d) Rhywun sy'n dal trwydded amblecs radio cenedlaethol neu drwydded darlledu sain cenedlaethol (adran 44A(1)(d)). Bwriad hyn ydy sicrhau bod yr haen amblecs ar raddfa fach ar wahân i'r haen genedlaethol o ran perchnogaeth.
 - e) Corff corfforaethol lle mae unigolyn a ddisgrifir yn (d) yn dal budd sy'n fwy na 30% (adran 44A(1)(e)). Mae hyn yn caniatáu i ddarlledwr cenedlaethol neu weithredwr amblecs ymwneud â thrwyddedeion amblecsau radio ar raddfa fach ond gyda chap ar raddfa'r budd hwnnw mewn unrhyw drwyddedai.
 - f) Corff corfforaethol lle mae'r unigolyn a ddisgrifir yn (d) yn gyfranogwr os yw'r unigolyn hwnnw yn gyfranogwr mewn mwy na chwe thrwydded amblecs radio ar raddfa fach (adran 44A(1)(f)). Unwaith eto, mae hyn yn caniatáu ond yn cyfyngu ar gyfraniad yr haen genedlaethol, y tro yma gan gyfyngu ar nifer y thrwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach y maent yn gallu ymwneud â nhw.
 - g) Corff corfforaethol sy'n dal trwydded amblecs radio lleol, ond dim ond os bydd ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amblecs radio lleol yn gorgyffwrdd ag ardal y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach dan sylw (adran 44A(1)(g)). Mae hyn yn rhwystro thrwyddedeion amblecs radio lleol rhag dal trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, ond dim ond y rheini sy'n gorgyffwrdd â'u hardal weithredu eu hunain.
 - h) Corff corfforaethol lle mae unigolyn a ddisgrifir yn (g) yn dal budd sy'n fwy na 30% (adran 44A(1)(h)). Mae hyn yn caniatáu i weithredwr amblecs radio lleol ymwneud â thrwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach yn ei ardal ddarpariaeth ond gyda chap ar raddfa'r budd hwnnw.
- 4.6 Byddai Adran 44A(2) yn rhwystro corff corfforaethol rhag dal mwy nag un drwydded y mae ei hardal ddarpariaeth yn gorgyffwrdd yn sylweddol ag ardal y gwasanaeth amblecs radio lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn golygu bod Ofcom yn cael pennu beth sy'n orgyffwrdd "sylweddol". Rydym yn credu mai diben y ddarpariaeth hon ydy atal yr haen amblecs ar raddfa fach rhag ailadrodd yr haen amblecs lleol, a fyddai'n golygu y byddai deilydd nifer o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach sy'n agos at ei gilydd yn ddaearyddol yn cystadlu'n uniongyrchol â'r haen amblecs lleol. Petai hyn yn digwydd, gallai danseilio'r amcan o drwyddedu amblecs radio ar raddfa fach er mwyn rhoi opsiwn i'r darlledwyr hynny y mae'r haen amblecs lleol yn llai addas iddynt, yn hytrach na dewis arall ar gyfer y rheini y mae'n addas iddynt. Yn ein barn ni, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ffigur gorgyffwrdd o 40% yn adran 50(2A) ac sy'n cael ei drafod uchod.
- 4.7 Nid ydym yn cynnig gosod terfyn absoliwt ar y gorgyffwrdd y byddem yn meddwl a fyddai'n golygu gorgyffwrdd "sylweddol" gan y gallai hyn ddibynnu ar amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, rydym yn cynnig ystyried bod gorgyffwrdd yn sylweddol petai'n golygu bod trwyddedai yn torri'r lefel gorgyffwrdd o 40% gyda'r gwasanaeth amblecs radio lleol dan sylw, neu gynyddu darpariaeth yn uwch na'r lefel honno.

- 4.8 Mae Adran 44(3) yn nodi nad yw'r cyfyngiad ar ddal mwy na 20% o drwyddedau'n berthnasol lle dyfarnwyd llai na 20 o drwyddedau. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn atal y rheini y dyfernir trwyddedau cynnar iddynt rhag torri'r trothwy ar unwaith, ac mae'n golygu bod trwyddedeion yn cael dal hyd at bum trwydded amblecs radio ar raddfa fach heb y perygl o dorri'r trothwy 20% ni waeth faint o drwyddedau eraill sy'n cael eu dyfarnu.
- 4.9 Rydym yn cydnabod y gallai'r cyfyngiad ar ddal mwy na 20% o drwyddedau, mewn theori, olygu bod trwyddedai'n torri'r trothwy oherwydd bod trwyddedai arall yn ildio ei drwydded ei hun neu ei fod yn cael ei dirymu (a thrwy hynny leihau nifer absoliwt y trwyddedau y byddai angen eu dal er mwyn mynd dros y lefel 20%). Byddem yn cynghori'r trwyddedeion i gadw rhywfaint o glustog o ran nifer y trwyddedau y maent yn eu dal er mwyn darparu ar gyfer hyn ac, yn yr achos anhebygol bod trwyddedai yn cael ei wahardd oherwydd gostyngiad yn nifer cyffredinol y trwyddedau sydd wedi cael eu dyfarnu, byddem yn siarad â'r trwyddedai hwnnw er mwyn ceisio datrys y mater (ee drwy drosglwyddo trwydded, neu drwy ail-hysbysebu'r drwydded a oedd wedi cael ei hildio) cyn ystyried dirymu.
- 4.10 Mae Adran 44A(4) yn golygu bod "deilydd" trwydded yn cynnwys unigolion sy'n gysylltiedig â'r sawl a enwir ar y drwydded ei hun, a'r bwriad ydy atal osgoi oherwydd bod pobl gysylltiedig yn dal trwyddedau.

Oes y drwydded ac adnewyddu

- 4.11 O dan adran 58 o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn, mae gan Ofcom y pŵer i ddyfarnu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach am gyfnod o hyd at saith mlynedd, gyda chyfnod adnewyddu pellach o bum mlynedd.
- 4.12 Mae angen i ddeilydd y drwydded wneud cais i adnewyddu cyn pen ffenestr a fydd yn agor 18 mis cyn y byddai'r drwydded yn dod i ben fel arall, ac sy'n cau chwe mis cyn y byddai'n dod i ben fel arall. Mae hi'n bwysig nodi nad oes modd derbyn ceisiadau y tu allan i'r ffenestr adnewyddu hon, a bydd trwyddedeion yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cyflwyno cais i adnewyddu'n brydlon (nid ydym yn cynnig anfon llythyrau adnewyddu at drwyddedeion).
- 4.13 O dan adran 58(4), wrth adnewyddu gallai Ofcom fynnu bod cynllun technegol ategol yn cael ei gyflwyno, a fyddai'n rhoi sylw i ganllawiau technegol gan Ofcom (a allai, er enghraifft, fod yn berthnasol os bu newidiadau mewn safonau technegol dros oes trwydded). Efallai byddwn hefyd angen addasiadau i faint o gapasiti ar yr amblecs sy'n cael ei gadw ar gyfer gwasanaethau C-DSP. Gall hyn fod yn berthnasol os oes tystiolaeth o alw sydd heb ei ddiwallu gan wasanaethau o'r fath yn yr ardal y gellid, ym marn Ofcom, darparu lle ar eu cyfer heb danseilio hyfywedd yr amblecs.
- 4.14 Cawn wrthod adnewyddu trwydded os yw'r ymgeisydd wedi methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded, neu os yw wedi methu â chyflwyno cynllun technegol atodol, neu os nad ydym yn fodlon y gallai'r trwyddedai ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r amodau wrth adnewyddu (adran 58(7)).

Lansio ar ôl dyfarnu trwydded

- 4.15 Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn cymhwyso Deddf 1996 gydag addasiadau gan osod dyddiad cau caeth o 18 mis ar ddechrau darparu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ar ôl dyfarnu. Yn benodol, lle mae trwydded wedi cael ei dyfarnu ond heb ei rhoi, mae adran 51(6) yn caniatáu i Ofcoym ddirymu dyfarniad os oes gennym sail resymol dros gredu na fydd y gwasanaeth amblecs yn weithredol¹¹ cyn pen 18 mis ar ôl y dyfarniad. Yn yr un modd, mae adran 53(1)(aa) yn defnyddio'r un rheol pan fydd trwydded wedi cael ei dyfarnu ond nad yw eto wedi dod i rym.
- 4.16 Bwriad y darpariaethau hyn ydy osgoi oedi hir rhwng dyfarnu trwydded a bod y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ar gael i ddefnyddwyr, ac felly osgoi defnyddio sbectrwm yn aneffeithlon. Ac ystyried y diffyg cymhlethdod technegol cymharol mewn amblecsu ar raddfa fach, rydym yn credu bod 18 mis yn ddigon hir i lansio gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, ac rydym yn bwriadu gorfodi hynny'n llym. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Ofcom yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus am drwydded wneud y gwaith angenrheidiol i weithredu ei gynllun technegol, ac yn benodol sicrhau ei fod yn caniatáu digon o amser i gysylltu â thrwyddedeion amblecs radio eraill ynghylch unrhyw effaith y gallai ei drosglwyddyddion arfaethedig ei chael ar ddarpariaeth gwasanaethau radio DAB eraill. Mae manylion y broses gysylltu y mae'n rhaid i drwyddedeion ei dilyn wedi cael eu darparu yn y weithdrefn ar gyfer lansio trosglwyddyddion newydd sydd yng [Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer Trwyddedeion Amblecs DAB](#).

Ffioedd trwydded blynyddol

- 4.17 Mae'r Gorchymyn yn cymhwyso adran 42 o Ddeddf 1996 heb addasiadau i drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, gan gynnwys darpariaethau ar amodau trwydded ar ffioedd. Bydd yn rhaid i bob trwyddedai amblecs radio ar raddfa fach dalu ffi trwydded Deddf Darlledu flynyddol. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn ein tariff o ffioedd trwyddedau, ac mae modd i Ofcom eu hamrywio.
- 4.18 I ddechrau bydd ffi trwydded flynyddol ar gyfer trwydded amblecs radio ar raddfa fach yn £500.
- 4.19 Bydd yn rhaid talu'r ffi hon am gyhyd ag y bydd y drwydded wedi'i dyfarnu. Nid ydym yn cynnig codi ffi am amrywio trwyddedau.
- 4.20 Ni fydd yn rhaid talu ffi mewn perthynas â'r drwydded a ddyfernir o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 y bydd yn rhaid i bawb sy'n dal trwydded amblecs radio ar raddfa fach ei dal hefyd.

¹¹ Mae'r amblecs yn gweithredu i raddau helaeth yn unol â'r Cynllun Technegol gan gynnwys bod yr holl drosglwyddyddion ar-yr-awyr ac yn darlledu o leiaf un gwasanaeth rhaglenni.

Cadw capasiti

- 4.21 Mae'r Gorchymyn yn cynnig adddasu Deddf 1996 drwy gynnwys adran 49A newydd mewn perthynas â gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau, wrth gyflawni ein pwerau, ei bod yn **rhaid i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach gadw capasiti darlledu ar gyfer deiliaid trwyddedau C-DSP, ar gyfer o leiaf tri gwasanaeth rhaglenni**. Mae Adran 49A(3) yn mynnu bod Ofcom yn rhoi amodau trwydded yn sail i'r capasiti wrth gefn hwn.
- 4.22 Byddai Adran 49A(2) yn mynnu ein bod wrth bennu hyn "yn ystyried y galw tebygol am gapasiti digidol gan unigolion sy'n darparu neu sy'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol yn ardal ddarpariaeth y drwydded".
- 4.23 Er mwyn amcangyfrif lefel y capasiti wrth gefn rydym yn meddwl y byddai ei angen ar gyfer pob trwydded amlblecs, rydym yn cynnig ystyried tystiolaeth o'r galw gan gynnwys y canlynol (ond nid dim ond hyn):
- Lefel y galw fel sydd wedi'i fynegi gan wahanol fathau o ddarparwyr gwasanaeth (gan gynnwys yr ymarfer datganiadau o ddiddordeb a gynhaliwyd yn 2018); a'r
 - nifer cyfredol o orsafoedd radio cymunedol analog sydd wedi cael eu trwyddedu (ond nad ydynt o reidrwydd i gyd ar yr awyr) yn yr ardal.
- 4.24 Rydym yn cydnabod y gallai canlyniad y cais am ddatganiadau o ddiddordeb yn 2018 fod ychydig yn hen erbyn i ni allu gwahodd ceisiadau ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a thrwyddedau C-DSP ar gyfer rhai rhannau o'r DU. Fodd bynnag, byddai'r dewis arall sef gwahodd datganiadau newydd o ddiddordeb bob tro rydym yn bwriadu hysbysebu swp newydd o drwyddedau'n feichus yn weinyddol, a byddai'n achosi oedi sylweddol i gyflwyno'n genedlaethol gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.
- 4.25 Er bod adran 49A yn mynnu'n benodol bod Ofcom yn ystyried y galw gan wasanaethau C-DSP, mae'n dawel ar ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol i Ofcom yn pennu lefel cadw. I'r perwyl hwn, rydym yn cynnig hefyd ystyried nifer y gorsafoedd radio masnachol bach sy'n darlledu ar analog (ond nid DAB lleol) yn yr ardal, unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennym ar y galw tebygol gan wasanaethau o'r fath, a'r angen i sicrhau hyfywedd y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach dan sylw.
- 4.26 Drwy wneud hynny rydym yn nodi, yn gyntaf, er bod hybu darparu gwasanaethau C-DSP yn amcan polisi pwysig, mae darparu llwybr at ddigidol ar gyfer gorsafoedd masnachol llai hefyd yn ystyriaeth bwysig. Yn ail, er mai diben capasiti wrth gefn yw hybu costau cludo cymharol isel ar gyfer gwasanaethau C-DSP drwy sicrhau bod rhywfaint o gapasiti heb gystadleuaeth gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni eraill ar ei gyfer, ni fyddai cael llawer iawn o gapasiti wrth gefn heb ei ddefnyddio yn helpu i sicrhau hyfywedd y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, sy'n bwysig i bob darlledwr, gan gynnwys y trwyddedeion C-DSP eu hunain.
- 4.27 Gan edrych ar faint o gapasiti sy'n ddigon ar gyfer unrhyw nifer o wasanaethau C-DSP, rydym yn cynnig y dylid cyfrifo faint o gapasiti y dylid ei gadw gan y trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach ar y sail ei bod yn **rhaid i bob gwasanaeth C-DSP allu darlledu o leiaf**

48 kbit yr eiliad¹² drwy ddefnyddio DAB+ (hy amgodio sain HE-AAC). Felly, er enghraifft, ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach y mae Ofcom wedi penderfynu a ddylai gadw capasiti ar gyfer o leiaf bedwar gwasanaeth C-DSP, byddai cyfanswm y capasiti wrth gefn ar gyfer yr amblecs hwnnw yn 192 kbit yr eiliad.

- 4.28 Mae Adran 49A(3) yn nodi'n glir bod capasiti wrth gefn "yn gyfan gwbl" ar gyfer defnyddio gwasanaethau C-DSP. Hynny yw, bydd angen cadw cymaint â hyn o gapasiti ar gael ar gyfer gwasanaethau C-DSP yn unig i'w ddefnyddio a rhaid peidio â'i ddefnyddio i gludo gwasanaethau rhaglenni eraill, hyd yn oed ar sail tymor byr.
- 4.29 Wrth ddyfarnu mynediad i ddeiliaid trwyddedau C-DSP at gapasiti wrth gefn ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i ddeilydd y drwydded amblecs wneud yn siŵr bod y corff sy'n gofyn am gael cludo yn dal trwydded C-DSP mewn gwirionedd, a bod y Prif Ymrwymadau sydd yn y drwydded C-DSP (gweler paragraffau 6.20-6.24) yn cynnwys cyfeiriad at y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach y mae'n hawlio capasiti wrth gefn ganddo.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â dull arfaethedig Ofcom ar gyfer gosod y lefel o gapasiti wrth gefn ar gyfer gwasanaethau C-DSP ar wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach?

- 4.30 Mae Adran 49A (4) i (8) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn yn caniatáu i ddeiliaid trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach wneud cais i Ofcom am gael newid faint o gapasiti wrth gefn sydd ei angen ar yr amblecs y maent yn ei weithredu. Ni fydd modd i Ofcom ganiatáu cais o'r fath ond os bodlonir y tri amod canlynol :
- mae'r gwasanaeth amblecs wedi'i ddarparu am o leiaf dair blynedd (adran 49A(8)(a));
 - nid yw'r capasiti yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd (adran 49(8)(b)); a
 - mae'r trwyddedai wedi cymryd camau rhesymol i ddod o hyd i bartion sydd â diddordeb mewn defnyddio'r capasiti wrth gefn, ac wedi gweithredu'n ddiwyll gan gynnig llunio contract gyda nhw, a'i bod yn annhebygol y bydd y capasiti yn cael ei ddefnyddio am weddill cyfnod y drwydded (adran 49(8)(c)).
- 4.31 Mae is-adrannau (a) a (b) yn hunan-esboniadol; ni all Ofcom ganiatáu newid mewn capasiti wrth gefn o fewn tair blynedd gyntaf gweithredu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, neu lle mae'r capasiti wrth gefn yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau C-DSP.
- 4.32 Wrth asesu a yw trwyddedai amblecs radio ar raddfa fach wedi bodloni'r gofyniad yn is-adran (c), rydym yn cynnig y byddai angen i ni weld tystiolaeth gan y trwyddedai ei fod wedi mynd ati'n rhagweithiol (ac yn ddiweddar) i gysylltu â holl ddeiliaid trwyddedau C-DSP a thrwyddedeion radio cymunedol analog a leolir yn yr ardal ddarlledu amblecs i sicrhau nad ydynt yn dymuno darlledu gwasanaeth ar yr amblecs, naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol agos. Mae'n rhaid i'r trwyddedai fod wedi gweithredu'n ddiwyll wrth ddelio â sefydliadau o'r fath. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn nodi er ein bod yn credu ei bod hi'n

¹² Bydd y lefel cadw isaf felly ar gyfer 3 x 48 kbit/s drwy ddefnyddio HE-AAC (DAB+) sy'n cyfateb i 108 o unedau capasiti gyda lefel diogelu EEP3A, neu 162 os yw'n gweithredu gydag EEP2A neu 216 o unedau capasiti os yw'n gweithredu gydag EEP1A.

rhesymol i ddarllledwyr ddefnyddio capasiti wrth gefn er mwyn cyfrannu at y gost o weithredu'r amblecs, diben y capasiti wrth gefn yw creu pwysau i leihau costau cludo o'i gymharu â'r rheini sy'n defnyddio capasiti heb fod wrth gefn. Felly, byddem yn disgwyl i'r telerau a gynigir i wasanaethau C-DSP ar gyfer defnyddio capasiti wrth gefn gwag fod yn fwy ffafriol nag ar gyfer capasiti nad yw wrth gefn, ac i adlewyrchu ymdrech wirioneddol i lenwi'r capasiti wrth gefn sydd ar gael.

- 4.33 Hyd yn oed os yw'n ymddangos i ni fod y tri amod wedi'u bodloni, rhaid i Ofcom ymgynghori ar gynnig y trwyddedai dan adran 49A(6). Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn cynnig cyhoeddi safbwynt rhagarweiniol, ac ystyried sylwadau cyn cytuno neu wrthod y cais.

Gofynion gwybodaeth o ran ffioedd cludo'r a gwasanaethau sy'n cael eu cludo

- 4.34 Mae'r Gorchymyn yn cynnig defnyddio'r fersiwn wedi'i addasu o adran 54 o Ddeddf 1996, yn benodol drwy ychwanegu is-adrannau (1) (i) a (j).
- 4.35 Mae Adran 54(1)(i) fel y'i diwygiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai gyhoeddi, *“gwybodaeth mewn modd sy'n briodol ym marn OFCOM, ynghylch y taliadau sydd i'w gwneud gan ddeiliaid trwyddedau cymunedol a rhaglenni sain digidol lleol ar gyfer darlledu eu gwasanaethau dan y drwydded”*. Felly, rydym yn cynnig mynnu bod yr holl drwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach yn cyhoeddi 'cerdyn cyfraddau' cyfredol ar eu gwefan, a rhoi manylion i Ofcom am ffioedd cludo sy'n cael eu talu ar hyn o bryd gan ddarparwyr gwasanaeth rhaglenni presennol ar yr amblecs.
- 4.36 Mae Adran 54(1)(j) fel y'i diwygiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai ddarparu i Ofcom, *“wybodaeth, mewn modd sy'n briodol ym marn OFCOM, ar y gwasanaethau cymunedol a rhaglenni sain digidol lleol a ddarperir i'w darlledu drwy gyfrwng y gwasanaeth (gan gynnwys a oes unrhyw wasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn defnyddio capasiti digidol a gadwyd wrth gefn yn unol ag adran 49A).”*
- 4.37 Pwrpas y ddarpariaeth uchod yw sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ofcom ynghylch y gwasanaethau rhaglenni sy'n cael eu cludo ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, ond heb fynnu bod trwyddedeion amblecs yn cael caniatâd penodol ar gyfer newidiadau i'w gwasanaeth rhaglenni (fel sy'n ofynnol i ddeiliaid trwyddedau amblecs radio lleol a chenedlaethol, a dyna fu'r sefyllfa i'r deg ardal dreialu yng nghyswllt gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach). Bydd hyn yn galluogi Ofcom i ganfod lle mae gwasanaethau DSP a C-DSP yn darlledu at y dibenion, er enghraifft, cwynion am safonau. Bydd hefyd yn galluogi Ofcom i fonitro'r defnydd o gapasiti wrth gefn. Rydym felly'n cynnig cynnwys amodau trwydded sy'n mynnu bod trwyddedeion amblecs radio ar raddfa fach yn cynnal ar eu gwefannau yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaethau rhaglenni maent yn eu cludo, yn ogystal â rhoi gwybod i Ofcom cyn newid y rhestr honno (gan gynnwys a yw'r gwasanaethau sy'n cael eu rhestru yn ymddangos ar gapasiti wrth gefn).

5. Trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach: hysbysebu a dyfarnu trwyddedau

5.1 Mae'r adran hon yn egluro sut y mae Ofcom yn bwriadu hysbysebu'r trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, y meini prawf a ddefnyddir i farnu ceisiadau yn eu herbyn, a sut y gellir disgwyl i ni ddehongli'r meini prawf hyn wrth wneud penderfyniadau o ran dyfarnu trwyddedau.

Hysbysebu trwyddedau

5.2 Rydym yn cynnig hysbysebu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach mewn sypiau. Bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu i ni reoli'n well y gwaith o gyflwyno gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach ar draws y DU. Rydym yn bwriadu hysbysebu'r rownd gyntaf o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach yn fuan ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori.

5.3 Wrth benderfynu ym mha drefn y byddwn yn hysbysebu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, a'r amserlen ar gyfer dyfarniadau, rydym yn cynnig rhoi sylw i'r ffactorau canlynol:

- lefel y galw tebygol gan ddarparwyr gwasanaeth ar sail y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd;
- pa mor ddymunol yw sicrhau bod gwasgariad daearyddol eang ar draws y DU yn gynnar yn y broses o ddyfarnu trwyddedau;
- maint y boblogaeth (hy rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle mae'r nifer mwyaf o ddefnyddwyr yn debygol o elwa o wasanaethau newydd amblecs radio ar raddfa fach);
- argaeledd sbectrwm ac ystyriaethau rheoli;
- blaenoriaethu ardaloedd treialu amblecs¹³, gan nodi bod trwyddedau treialu i ddod i ben yn gynnar yn 2020 ac na fyddai'n ddelfrydol i ddefnyddwyr sy'n derbyn gwasanaeth drwy amblecs sy'n cael ei dreialu, golli gwasanaeth;
- blaenoriaethu ardaloedd sydd â gwasanaethau amblecs radio lleol llawn cyn y rheini lle mae gwasanaethau amblecs radio lleol presennol, â chapasiti gwag ar hyn o bryd; a
- rheoli'r baich gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu niferoedd sylweddol o wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach (a'r gwasanaethau C-DSP cysylltiedig, wrth ystyried y bydd ceisiadau yn agor ochr yn ochr â'r rheini ar gyfer trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach) gyda'r adnoddau sydd ar gael i Ofcom.

¹³ Dyma'r ardaloedd dan sylw: Aldershot, Birmingham, Brighton, Bryste, Caergrawnt, Glasgow, Llundain, Manceinion, Norwich a Portsmouth.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau yr ydym yn cynnig eu hystyried wrth benderfynu ar y drefn a'r amserlen a ddefnyddir gan Ofcom i hysbysebu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach?

- 5.4 Ar gyfer pob swp o hysbysebion am drwyddedau amblecs, mae Ofcom yn cynnig agor ar yr un pryd (ar sail barhaol) y ffenestr ar gyfer gwneud cais am drwydded ar gyfer gwasanaethau C-DSP sy'n awyddus i ddarlledu yn yr un ardaloedd daearyddol â'r rhai a luniwyd i gael eu gwasanaethu gan y trwyddedau amblecs sy'n cael eu hysbysebu (gweler manylion proses ymgeisio C-DSP yn Adran 7).
- 5.5 Byddwn yn cyhoeddi amserlen a gynlluniwyd ar gyfer hysbysebu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, ochr yn ochr â'n datganiad ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn, ar sail y ffactorau y byddwn yn penderfynu eu cymhwyso yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.
- 5.6 Bydd hysbysebion trwydded amblecs radio ar raddfa fach yn agored am 12 wythnos, i alluogi partïon sydd â diddordeb i gasglu'r wybodaeth berthnasol ynghyd a gwneud cais. Gan ddibynnu ar nifer y trwyddedau sy'n cael eu hysbysebu a nifer y ceisiadau a gyflwynir, byddwn yn ceisio gwneud dyfarniadau cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau.

Ffurflen gais a chynllun technegol

- 5.7 Bydd manylion llawn ynghylch sut y dylid cyflwyno cais yn cael eu nodi yn y Gwahoddiad i Ymgeisio ('ITA') am drwydded amblecs radio ar raddfa fach.
- 5.8 Byddai Adran 50(4)(a) o Ddeddf 1996 fel y caiff ei haddasu gan y Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr dalu ffi ymgeisio fel y pennir gan Ofcom yn ei hysbysiad yn hysbysebu'r drwydded. Y ffi ymgeisio am drwydded amblecs radio ar raddfa fach fydd £500, y mae'n rhaid ei thalu cyn y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio.
- 5.9 Bydd y cwestiynau a restrir yn y ffurflen gais a'r wybodaeth y gofynnir amdani, gyda'i gilydd, yn galluogi Ofcom i ystyried cynigion ymgeisydd yn erbyn yr amrywiol ofynion deddfwriaethol.
- 5.10 Oherwydd yr angen i asesu ceisiadau am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach yng ngoleuni'r nodweddion a nodir mewn statud, ni fydd rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y ffurflen gais yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau darlledu ar yr awyr.
- 5.11 Os bydd eu cais yn llwyddo, bydd gofyn i ymgeiswyr lenwi ffurflen Datganiad Gwreiddiol cyn lansio'r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach i sicrhau bod y darpar drwyddedai yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau Deddf Darlledu 1990, Deddf 1996 (fel y caiff ei haddasu gan y Gorchymyn) a Deddf 2003.
- 5.12 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd sicrhau y darperir ceisiadau cyflawn i Ofcom fel y nodir yn yr ITA, gan na fydd modd i geisiadau gael eu diwygio, na chyflwyno deunydd newydd, unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio wedi mynd heibio. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr, os bydd angen gofyn am eglurhad ynghylch unrhyw rai o'r cynigion neu'r wybodaeth a ddarparwyd.

- 5.13 Er budd tryloywder, ar ôl y dyddiad cau, bydd pob cais (ac eithrio unrhyw adrannau sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol) yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom.
- 5.14 Bydd y penderfyniad i ddyfarnu trwydded ai peidio, ac i bwy, yn cael ei wneud gan Ofcom, a bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail i ba raddau mae'r cynigion yn ymddangos, ym marn Ofcom, eu bod yn bodloni'r meini prawf asesu.
- 5.15 Bydd y penderfyniad ynghylch dyfarnu'n cael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl iddo gael ei wneud. Pan fydd dyfarniadau wedi'u gwneud, rydym hefyd yn cynnig cyhoeddi'r ffactorau allweddol a arweiniodd at ein penderfyniad.

Darparu cynllun technegol

- 5.16 Mae Adran 50(4)(b) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei diwygio gan y Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynllun technegol fel rhan allweddol o'u cais. Yn benodol, mae'n rhaid i'r cynllun hwn gynnwys:
- y rhannau o'r ardal neu'r ardal leol a bennir gan Ofcom wrth hysbysebu'r drwydded a fyddai o fewn ardal darpariaeth y gwasanaeth;
 - yr amserlen y byddid yn ei dilyn er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth honno; a
 - y dulliau technegol y byddid yn eu defnyddio i gyflawni hynny.
- 5.17 Mae Adran 50(3) fel y caiff ei haddasu gan y Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu i Ofcom gyhoeddi canllawiau fel y credwn ni sy'n briodol. Mewn perthynas â'r cynllun technegol, byddem yn disgwyl y dylai gynnwys fel isafswm:
- a) **Disgrifiad o'r ardal y bwriedir ei gwasanaethu a rhagfynegiad o'r ddarpariaeth ddisgwyliedig.** Dylai'r ymgeisydd nodi pa declyn rhagweld a rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r rhagfynegiad hwn. Bydd Ofcom yn cynnal ei asesiad ei hun o'r ddarpariaeth y rhagwelir y bydd cynllun technegol pob ymgeisydd yn ei chyflawni. Gellir gweld disgrifiad o'r model cynllunio a'r rhagdybiaethau y mae Ofcom yn disgwyl eu gwneud wrth fodelu darpariaeth, yn Atodiad 2¹⁴.
- b) **Asesiad o'r goryffwrdd â gwasanaethau amblecs radio lleol.** Dylai ymgeiswyr sicrhau na fydd eu trefniant o ran eu trosglwyddydd arfaethedig yn arwain at ardal darpariaeth y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn ymestyn dros fwy na 40% o'r boblogaeth o fewn ardal drwyddedig unrhyw wasanaeth amblecs radio lleol presennol (oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, y bydd Ofcom ei hun wedi penderfynu hysbysebu ardal ehangach). Wrth hysbysebu trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, bydd Ofcom yn darparu manylion ardal drwyddedig a phoblogaeth pob gwasanaeth amblecs radio lleol. Rhoddir enghraifft yn Atodiad 3 o'r wybodaeth y bwriadwn ei darparu ar gyfer un ardal gwasanaeth amblecs radio lleol, ynghyd â rhagor o ganllawiau ynghylch sut y caniateir iddi gael ei defnyddio.

¹⁴ Bydd Ofcom yn cadarnhau'r model cynllunio y mae'n cynnig ei ddefnyddio ac unrhyw ragdybiaethau cysylltiedig ym mhob gwahoddiad i ymgeisio.

- c) **Gwybodaeth am safle trosglwyddydd.** Bydd angen i hyn gynnwys manylion lleoliad(au) arfaethedig trosglwyddydd(ion), pŵer(au) ac antena(u). Bydd Ofcom angen yr wybodaeth ar ffurf safonol (mae rhagor o fanylion yn Atodiad A4).
- d) **Asesiad o'r risg i 'dorri twll' ddigwydd yn narpariaeth gwasanaethau amblecs radio eraill.** Pan fydd trosglwyddydd DAB newydd yn cael ei roi ar yr awyr gan ddefnyddio safle trawsyrro nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan ddarlledwyr DAB arall, mae'n bosibl y gallai effeithio ar dderbyniad gwasanaethau radio DAB eraill ar gyfer gwrandawyr sy'n agos at safle'r trosglwyddydd newydd. Dyma effaith a elwir yn 'dorri twll', neu ymyriant sianel gyfagos ('ACI'). Dylai ymgeiswyr felly'n asesu pa risg sydd y bydd eu trosglwyddyddion arfaethedig yn achosi diffyg derbyniad ar gyfer gwasanaethau radio DAB eraill ac ystyried sut y gellir lleihau'r risg honno i'r eithaf. Mae'n bwysig ystyried hyn yn y cam dylunio, er mwyn osgoi'r sefyllfa lle mae'r trwyddedeion eraill a/neu Ofcom yn gwrthwynebu i drosglwyddydd ddod ar yr awyr ar y sail y byddai'n arwain at golli gormod o wrandawyr i wasanaethau eraill. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng [Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion DAB](#).
- e) **Amserlen ar gyfer cyflawni.** Dylai'r amserlen nodi pa bryd y bydd y gwahanol elfennau technegol sy'n ffurfio'r cynllun technegol yn barod i ddod yn rhan o'r gwasanaeth. Dylai gynnwys manylion am gynnydd yr ymgeisydd o ran materion cyfreithiol a chaffael, megis statws cytundebau gyda landlordiaid i gael mynediad i adeiladau neu safleoedd trosglwyddyddion. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn nodi bod y ddeddfwriaeth yn gosod dyddiad cau llym o 18 mis ar lansio o ddyddiad dyfarnu'r drwydded (gweler paragraffau 4.15 a 4.16), felly byddem yn disgwyl amserlen realistig ar gyfer cwblhau o fewn y cyfnod hwnnw.
- 5.18 Oherwydd pwysigrwydd maint yr ardal ddarpariaeth arfaethedig, mae'r cynllun technegol sy'n cael ei gyflwyno gan ymgeiswyr yn rhan bwysig iawn o'r cais. Ni fyddwn yn derbyn amrywiadau i gynllun technegol ymgeisydd unwaith y bydd ceisiadau wedi cael eu cyflwyno, er ein bod yn cadw'r hawl i ofyn am eglurhad ar unrhyw agweddau sy'n aneglur. Byddem yn annog ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn derbyn cyngor gan beiriannydd cymwys er mwyn eu helpu i lunio eu cynllun technegol.
- 5.19 Ar ôl dyfarnu trwydded, mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddilyn y broses o gysylltu a nodir yn ein canllawiau polisi technegol cyhoeddedig y cyfeirir atynt uchod. Mae hwn yn datgan bod yn rhaid i'r trwyddedai newydd gyflwyno tystiolaeth i Ofcom o gytundeb ar faterion ACI gyda deiliaid trwyddedau amblecs radio eraill yn ystod y cyfnod rhwng dyfarnu'r drwydded a lansio'r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach. Mae'n bosibl y gallai canlyniadau'r broses ymgysylltu olygu bod newidiadau'n ofynnol i gynllun technegol yr ymgeisydd, a allai, yn ei dro, arwain at newidiadau yn y ddarpariaeth. Byddai angen i Ofcom gymeradwyo unrhyw newidiadau o'r fath.

Meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded

- 5.20 Mae'r Gorchymyn yn cynnig y bydd trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach yn cael eu dyfarnu'n gystadleuol, ac yn diwygio adran 51 o Ddeddf 1996 i ddarparu'r meini prawf canlynol ar gyfer dyfarnu:
- maint ardal y ddarpariaeth (o fewn yr ardal neu'r ardal leol a bennir yn hysbysiad dyfarnu Ofcom) y mae'r ymgeisydd yn cynnig ei chyflawni fel y nodir yn ei gynllun technegol (adran 51(2)(a));
 - gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig (adran 51(2)(c));
 - pa mor ddymunol yw dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd (i) yn berson sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r ardal leol, neu (ii) yn cynnwys fel cyfranogwr unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r ardal leol honno (adran 51(2)(ca));
 - i ba raddau y mae tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth arfaethedig ymysg pobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r ardal leol honno (adran 51(2)(f)); ac
 - a yw'r ymgeisydd drwy gontractio neu gynnig contractio gydag unigolion yn darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny (adran 51(2)(g));
- 5.21 Rydym yn nodi isod sut yr ydym yn cynnig defnyddio'r meini prawf hyn wrth asesu ceisiadau ar gyfer trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach.

Maint yr ardal ddarpariaeth arfaethedig

- 5.22 Wrth wahodd ceisiadau am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach byddwn yn diffinio ardaloedd darpariaeth ymlaen llaw, gan eu galw'n 'ardaloedd polygon'. Mewn dwy ardal fwy a elwir yn 'ardaloedd macro' rydym wedi grwpio ardaloedd polygon gyda'i gilydd gan ei bod yn annhebygol fod digon o sbectrwm ar gael i ddyrannu amleddau i bob ardal polygon yn yr ardaloedd macro hyn. Ym mhob ardal, byddwn yn chwilio am gynigion gan ymgeiswyr ar gyfer ardaloedd darpariaeth ar sail y polygonau.
- 5.23 Mae'r ystyriaethau a gynigiwn dan y maen prawf hwn fel a ganlyn:
- **Maint y ddarpariaeth arfaethedig** - byddwn yn ystyried faint o'r boblogaeth sydd wedi'u cynnwys o fewn polygon yr ardal ddarpariaeth y rhagwelir fydd yn cael ei gwasanaethu gan y trosglwyddyddion a fwriedir yng nghynllun technegol yr ymgeisydd. Byddwn hefyd yn asesu faint o 'orlif' poblogaeth sy'n disgyn y tu allan i'r ardal polygon, a dylai ymgeiswyr sicrhau bod lefel y gorlif yn gyfyngedig (gweler paragraff 5.28).
 - **Cydnawsedd â'r cynllun sbectrwm cyffredinol** – Byddwn yn asesu'r ymyriant y rhagwelir y bydd trosglwyddyddion arfaethedig yr ymgeisydd yn ei roi yn yr ardaloedd lle y mae'r un amledd yn cael ei ddefnyddio (neu y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio). Ar gyfer polygonau mewn ardaloedd macro, byddwn ond yn gallu pennu cyfyngiadau

ymyriant ymlaen llaw i mewn i ardaloedd polygon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal facro.

- **Maint gorgyffwrdd â gwasanaethau amblecs radio lleol** – byddwn yn asesu'r boblogaeth yn y manau lle ceir gorgyffwrdd o ran darpariaeth gydag ardal drwyddedig unrhyw wasanaethau radio amblecs lleol. Mae Adran 50(2A)(c) yn cyfeirio at ba mor ddymunol yw sicrhau bod y boblogaeth yn unrhyw ardal sy'n gorgyffwrdd ag ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio lleol yn llai na 40% o gyfanswm poblogaeth ardal drwyddedig y gwasanaeth amblecs radio lleol dan sylw, ac oni bai ein bod yn nodi yn ein hysbysiad y gall amgylchiadau lleol penodol gynnwys mynd dros y trothwy ar sail eithriadol, nid fyddem yn trwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach lle byddai hyn yn golygu gorgyffwrdd sy'n uwch na'r lefel honno.
- 5.24 Mae ein cynllun ardal darpariaeth, a gyhoeddwyd yn Atodiad 1, yn nodi ardaloedd trwydded posibl ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach. Mae'r cynllun yn cynnwys polygonau ac ardaloedd macro, sy'n cynrychioli ardaloedd darpariaeth tybiannol yr ydym ni wedi'u datblygu gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodir yn Adran 3.
- 5.25 Ar gyfer pob un o'r polygonau, rydym wedi rhoi amcangyfrif o nifer y cartrefi o fewn yr ardal ddarpariaeth bosibl, ac arwydd o lefel y gorgyffwrdd â gwasanaethau amblecs radio lleol presennol.
- 5.26 Nid yw ein cynllun ardal ddarpariaeth yn tybio y defnyddir unrhyw safleoedd trosglwyddyddion penodol, ac mae'n fater i ymgeiswyr gynnig y lleoliadau trosglwyddyddion y maent yn dymuno'u ddefnyddio o fewn yr ardaloedd polygon er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth a ddymunant.
- 5.27 Rydym yn disgwyl i'r ardal a bennir gan ymgeisydd fod yn cyfateb yn weddol agos at y polygon sy'n sail i'r drwydded rydym wedi'u hysbysebu ar gyfer y lleoliad hwnnw. Mae hyn yn helpu i sicrhau cydnawsedd â'r cynllun amledd cyffredinol, ac i gwrdd â'r galw a nodwyd wrth gynllunio'r polygonau mor briodol â phosibl.
- 5.28 Rydym yn deall, fodd bynnag, fod natur ddaearol trawsyrru radio yn golygu bod rhywfaint o ddarpariaeth 'gorlif' a allai ddigwydd, felly efallai y byddwn yn caniatáu i ymgeiswyr fynd y tu hwnt i ardal darpariaeth y polygon gyda dau amod pwysig. Yn gyntaf, dylai'r gorlif fod mor gyfyngedig ag sy'n rhesymol bosibl a beth bynnag, ni ddylai yn gyffredinol fod yn fwy na 30% o'r boblogaeth sydd o fewn y polygon gwreiddiol. Yn ail, fel y nodir isod, lle mae'r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach (gan gynnwys unrhyw orlif) yn gorgyffwrdd ag ardal drwyddedig gwasanaeth amblecs radio lleol, ni ddylai'r boblogaeth o fewn y gorgyffwrdd fod yn fwy na 40% o gyfanswm y boblogaeth yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amblecs radio lleol.
- 5.29 Byddwn yn ffafrio ymgeiswyr sy'n cynnig darparu ar gyfer cyfran fwy o'r boblogaeth a gwmpesir gan yr hysbysebion polygon dros y rheini sy'n cynnig cynnwys llai o hynny, tra'n lleihau'r gorlif. Y rheswm am hyn yw bod y cyntaf yn defnyddio sbectwm yn fwy effeithlon, ac yn debygol o fod yn fwy deniadol i'r darparwyr gwasanaethau rhaglenni.
- 5.30 Mewn dwy ardal yn wlad, mae ein gwaith cynllunio rhagarweiniol yn awgrymu na allwn fod yn hyderus y byddwn yn dod o hyd i amledd ar gyfer pob ardal polygon. Yn yr ardaloedd

hynny, rydym yn cynnig clystyru'r polygonau i greu ardaloedd 'macro' mwy, ac yn gwahodd cynigion mewn sypiau gan ymgeiswyr sy'n dymuno darparu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn yr ardaloedd macro.

- 5.31 Bydd ein hysbysiad hysbysebu yn yr achosion hynny, yn nodi'n glir ein bod yn chwilio am gynigion ar gyfer gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach sy'n seiliedig ar ganfod ardaloedd polygon yn yr ardaloedd mwy hynny, ac nid oes cynigion i wasanaethu'r ardal gyfan neu ardal newydd sy'n cynnwys rhannau o sawl ardal polygon. Bydd gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn yr ardaloedd macro hefyd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau o ran peidio â gorgyffwrdd dim mwy na 40% o'r boblogaeth o fewn yr ardal drwyddedig yn unrhyw un o'r gwasanaethau amblecs radio lleol sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hynny.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesu'r cynlluniau technegol a gyflwynwyd yn y ceisiadau am drwydded amblecs radio ar raddfa fach?

Y gallu i gynnal y gwasanaeth arfaethedig

- 5.32 Wrth asesu ceisiadau am drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach yn erbyn y maen prawf hwn, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar dri phrif faes:
- **Ariannol** - byddwn eisieu gwybod beth yw cost sefydlu'r gwasanaeth amblecs radio newydd ar raddfa fach, a sut y caiff y costau hyn eu talu. Bydd gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth o gyllid wedi'i warantu, asedau presennol a'r costau cychwynnol i wasanaethau raglenni gael eu cludo ar y gwasanaeth amblecs a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu'r costau hyn.
 - **Arbenigedd a phrofiad** - byddwn am gael gwybod pwy fydd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach, pwy yw'r staff a/neu gontractwyr allweddol, a beth yw'r profiad a'r arbenigedd perthnasol sydd ganddynt. Yn benodol, byddwn yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr ar y profiad a'r cymwysterau perthnasol sydd gan eu staff technegol, neu'r contractwyr y maent yn cynnig eu defnyddio.
 - **Technegol** - byddwn yn awyddus i wybod sut y caiff y cyfleusterau technegol eu sefydlu, ac a yw'r cynllun technegol arfaethedig yn realistig ac yn gyraeddadwy. Bydd hyn yn cynnwys materion fel adnoddau technegol sydd gan yr ymgeisydd drwy arbenigedd mewnol neu allanol, beth sydd wedi cael ei wneud ac y mae angen ei wneud o hyd o ran cael mynediad at safleoedd trosglwyddyddion (er enghraifft, cytundebau â landlordiaid), asesiadau o'r tebygolrwydd o achosi 'torri twll' yng nghyswllt gwasanaethau DAB eraill; a'r dyddiad lansio arfaethedig.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesu gallu ymgeiswyr i sefydlu eu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach arfaethedig?

Cynnwys darparwyr gwasanaeth C-DSP yn y grŵp ymgeiswyr

- 5.33 Mae adran 51(2)(ca) o Ddeddf 1996 fel y bwriedir ei diwygio gan y Gorchymyn yn mynnu bod Ofcom yn ystyried pa mor ddymunol yw'n dyfarnu trwydded amblecs radio ar raddfa

fach i gorff corfforaethol sy'n darparu - neu sy'n cynnig darparu - gwasanaeth C-DSP yn yr ardal sy'n cael ei hysbysebu (neu sy'n cynnwys unigolyn o'r fath fel cyfranogwr yn y cwmni sy'n dal y drwydded).

- 5.34 Yn unol â hynny, rydym yn cynnig ystyried hyn. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod hyn yn nodwedd ddymunol yn hytrach nag un angenrheidiol, ac ni fyddai'n atal dyfarnu trwydded i ymgeiswyr nad ydynt yn cynnwys darparwr gwasanaeth C-DSP yn uniongyrchol, yn enwedig i'r graddau eu bod yn dangos, er gwaethaf y diffyg cyfranogiad uniongyrchol, fod galw neu gefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaeth C-DSP (gweler isod). Felly, rydym yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n cynnwys darparwyr gwasanaeth C-DSP yn uniongyrchol yn eu grŵp, a'r rhai sy'n gallu dangos fel arall fod galw a chefnogaeth gan ddarparwyr o'r fath.

Galw neu gefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl

- 5.35 Mae adran 51(2)(f) o Ddeddf 1996 fel y bwriedir ei diwygio gan y Gorchymyn yn mynnu bod Ofcom yn ystyried tystiolaeth bod gan yr ymgeisydd gefnogaeth gan ddarparwyr sydd â diddordeb i'w rhaglenni presennol neu rai a fwriedir i'r dyfodol, gael eu cludo ar yr amblecs arfaethedig.
- 5.36 Gall y dystiolaeth yr ydym yn cynnig ei hystyried ddod gan ddeiliaid trwyddedau DSP presennol, neu gan ddarparwyr gwasanaeth rhaglenni sy'n bwriadu gwneud cais (neu eisoes wedi gwneud cais) am drwyddedau DSP neu C-DSP lleol. Nid ydym yn cynnig bod yn rhagnodol ynghylch natur y dystiolaeth a ddarperir, ac nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu rhestr gyflawn o wasanaethau y maent yn bwriadu eu darparu ar eu gwasanaeth amblecs, na manylion am gynnwys y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, rhoddir ffafriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos y byddant mewn sefyllfa i gludo nifer o wasanaethau rhaglenni ar gapasiti wrth gefn a heb fod wrth gefn, gan roi hyder i Ofcom y bydd eu gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach yn ariannol hyfyw ac yn gwneud defnydd effeithlon o'r sbectrwm.
- 5.37 Rydym yn nodi bod y Gorchymyn yn cynnig diwygio adran 51(2) o Ddeddf 1996 i ddileu is-adrannau (d) ac (e) ac sy'n golygu bod rhaid i ni ystyried nodweddion penodol y DSPs y bwriedir eu cludo, ac mae addasiadau cyfatebol i adran 50 i ddileu'r angen i'r manylion hyn gael eu darparu gan ymgeiswyr. O'r herwydd, ac yn unol â phroses asesu wedi'i symleiddio ar gyfer nifer uchel o wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, nid ydym yn cynnig gwneud asesiad cymharol fanwl o gynnwys gwasanaethau. Yn hytrach, byddwn yn syml iawn yn edrych ar lefel y gefnogaeth gan wasanaethau C-DSP posibl a DSP.

Cystadleuaeth deg ac effeithiol

- 5.38 Mae adran 51(2)(g) o Ddeddf 1996 fel y bwriedir ei diwygio gan y Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu a fydd darparwyr gwasanaethau rhaglenni amblecs radio ar raddfa fach, drwy gontractio neu gynnig contractio gyda darparwyr gwasanaethau rhaglenni, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath. Rydym yn ystyried bod y gofyniad hwn yn ceisio

cefnogi cystadleuaeth a sicrhau bod darpar ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu trin yn deg, ac yn cael cyfle i gcontractio gyda darpar drwyddedai amlblecs.

- 5.39 Wrth asesu ceisiadau yn erbyn y maen prawf hwn, bydd angen i ni fod yn hyderus bod y darpar weithredwr gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach wedi cysylltu ag amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth posibl, ac yn enwedig y rheini sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid un ai trwydded radio cymunedol neu drwydded radio masnachol analog lleol yn yr ardal. Mae angen i drafodaethau sydd wedi digwydd rhwng yr ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a darparwyr gwasanaeth posibl (gan gynnwys y meini prawf ar gyfer dewis darparwyr o'r fath) fod wedi bod yn deg yn amlwg, a bod telerau unrhyw gcontract ar gyfer darparu gwasanaeth yn deg ac yn anwahaniaethol.
- 5.40 Mae'r math o dystiolaeth y gallwn ofyn amdani i'r ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach er mwyn goleuo ein hasesiad o'r maen prawf hwn yn debygol o gynnwys cofnodion o'r cyswllt a'r trafodaethau sy'n digwydd cyn, ac yn ystod y broses o ymgeisio am drwydded amlblecs, a chyflwyno contractau cludo arfaethedig.

Peidio â dyfarnu trwyddedau

- 5.41 Ceir rhai sefyllfaoedd lle na fydd Ofcom yn dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach y mae wedi'i hysbysebu. Mae'r mwyaf tebygol o'r senarios hyn fel a ganlyn:
- Er gwaethaf y datganiadau o ddiddordeb blaenorol a dangosyddion eraill o'r galw posibl, nid oes unrhyw ymgeiswyr.
 - Nid yw Ofcom yn fodlon, mewn perthynas â'r meini prawf y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dyfarnu trwydded ai peidio, y byddai dyfarnu trwydded i unrhyw ymgeisydd yn cynrychioli defnydd effeithlon o'r sbectrwm.
- 5.42 Byddai Ofcom yn tybio, ar ôl peidio dyfarnu mewn ardal lle yr hysbysebwyd, yn gyffredinol ni fyddid yn ystyried hysbysebu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach ar gyfer yr un ardal nes bod pob swp o drwyddedau amlblecs wedi cael ei ddyfarnu. Bydd y penderfyniad i ail-hysbysebu hefyd yn dibynnu ar a ydym yn meddwl y byddwn yn gallu gwneud dyfarniad, ac a yw'r sbectrwm yn dal ar gael.

6. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: amodau a gofynion

Beth yw trwydded C-DSP?

- 6.1 Mae'r Gorchymyn yn cynnig cyflwyno categori newydd o drwydded, y drwydded Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP'), drwy ddefnyddio adrannau 60 i 62 o Ddeddf Darlledu 1996 gydag addasiadau.
- 6.2 Mae trwyddedau C-DSP wedi'u llunio'n benodol ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol sy'n dymuno darlledu ar wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach. Er mai un amcan polisi o ran creu trwyddedau C-DSP yw darparu llwybr i'r digidol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog presennol, bwriedir i drwyddedau C-DSP hefyd hybu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau radio newydd sy'n dymuno darlledu gwasanaeth cymunedol, yn hytrach nag un â gogwydd masnachol, i ardal benodol.
- 6.3 Bydd llawer o'r amodau yn y trwyddedau C-DSP newydd yn gyfarwydd i drwyddedeion Rhaglenni Sain Digidol ('DSP') dan Ddeddf 1996, ac i drwyddedeion radio cymunedol analog dan Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004).
- 6.4 Fel gorsafoedd radio cymunedol analog, bydd angen i ddeiliaid trwyddedau C-DSP fodloni rhai nodweddion radio cymunedol, gan gynnwys cyflwyno "manteision cymdeithasol", i'r cymunedau y maent wedi'u trwyddedu i'w gwasanaethu. Bydd ganddynt hefyd gyfyngiadau tebyg i'r rhai sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog sy'n ymwneud â faint o incwm y gallant ei gael drwy werthu nawdd a hysbysebion ar yr awyr.
- 6.5 Ni fydd trwydded C-DSP yn ofyniad hanfodol i ddarlledu ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach. Gall gwasanaethau rhaglenni hefyd gael eu darlledu dan drwydded DSP bresennol – yn wahanol i drwyddedau C-DSP – nid oes angen i'w deiliad ddarparu manteision cymdeithasol i gymuned benodol.
- 6.6 Yn wahanol i'r trwyddedau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, ni fydd gan drwyddedau C-DSP unrhyw sbectrwm ynghlwm â hwy. Fel yr esboniwyd yn adran 4, bydd deiliaid trwydded C-DSP yn gallu gwneud cais i weithredwyr amblecs i ddefnyddio capasiti ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach sydd wedi'i diogelu i'w ddefnyddio gan drwyddedeion C-DSP ('capasiti wrth gefn') yn unig.
- 6.7 Bydd gan bob gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach ddigon o gapasiti wrth gefn i ddelio ag o leiaf dri gwasanaeth C-DSP (bydd union faint y capasiti wrth gefn yn cael ei bennu gan Ofcom wrth hysbysebu'r trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach).
- 6.8 Gellir defnyddio drwyddedau C-DSP i ddarlledu gwasanaeth rhaglenni ar wasanaeth amblecs radio lleol, er na fydd unrhyw gapasiti ar wasanaethau amblecs radio lleol yn cael ei gadw ar gyfer cludo gwasanaethau C-DSP.

- 6.9 Gellir defnyddio trwyddedau C-DSP hefyd i ddarlledu ar gapasiti heb fod wrth gefn ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach (er enghraifft, os yw'r capasiti wrth gefn ar amblecs penodol yn llawn).
- 6.10 Gall rhai gorsafoedd radio cymunedol ganfod bod trwydded DSP yn cyflawni eu dibenion yn well na'r drwydded C-DSP newydd. Ni fydd trwyddedau DSP yn darparu mynediad at gapasiti wrth gefn, ond nid ydynt ychwaith yn cynnwys gofynion manteision cymdeithasol. Fel trwyddedau C-DSP, nid oes gan drwyddedau DSP sbectrwm ynghlwm â hwy, a gellir eu defnyddio i ddarlledu ar wasanaethau amblecs lleol a radio ar raddfa fach.
- 6.11 Dylid nodi er y gellir defnyddio trwydded DSP i gwmpasu darlledu nifer o wahanol wasanaethau rhaglenni (gan yr un darparwr) ar amrywiaeth o wahanol wasanaethau lleol neu wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach ar draws y wlad, mae'r Gorchymyn yn mynnu bod yn rhaid dal trwydded ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP.
- 6.12 Mae gweddill yr adran hon yn rhoi gwybodaeth fanylach am gymhwysedd i ddal trwyddedau C-DSP, a'r amodau i'w cynnwys ynddynt. Noder, mewn sawl ffordd, byddai'r Gorchymyn yn cymhwyso Deddf 1996 heb addasiadau, ac felly byddem yn cynnig cynnwys amodau trwydded safonol sy'n debyg iawn i'r rheini sydd wedi cael eu cynnwys mewn trwyddedau DSP presennol.
- 6.13 Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle byddai'r Gorchymyn yn addasu Deddf 1996, neu lle mae ystyriaethau mymryn yn wahanol yn berthnasol i drwyddedau C-DSP. Mae'r rhain, y byddwn yn eu trafod gyntaf, fel a ganlyn:
- Cymhwysedd a chyfyngiadau ar berchenogaeth
 - Y diffiniad o 'gymuned' a'r gofyniad i ddarparu manteision cymdeithasol
 - Prif Ymrwymadau
 - Cyfyngiadau cyllido

Cymhwysedd a chyfyngiadau ar berchenogaeth

- 6.14 Fel gyda'r trwyddedau radio cymunedol analog presennol, rhaid i'r trwyddedau C-DSP fod yn gorff corfforaethol nad yw'n dosbarthu elw. Mae corff corfforaethol yn gwmni cofrestredig gan amlaf, er y gall hefyd gynnwys, er enghraifft, rhai cyrff a grëwyd gan statud. Nid yw unigolyn neu elusen gofrestrdig anghorfforedig ar ei ben ei hun yn gorff corfforaethol (er bod unigolion ac elusennau cofrestredig yn gallu sefydlu cwmnïau cofrestredig).
- 6.15 Yn wahanol i drwyddedau radio cymunedol analog, nid oes cyfyngiad ar nifer y trwyddedau C-DSP y caiff sefydliad eu dal. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'r Gorchymyn yn mynnu bod yn rhaid cael trwydded ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP.
- 6.16 Dim ond yr endid sy'n ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni sy'n gallu dal trwydded C-DSP. Felly, er enghraifft, os yw gorsaf radio cymunedol analog hefyd yn dymuno darlledu ar amblecs radio ar raddfa fach, byddai angen i'r un endid ag sy'n dal y drwydded analog hefyd fod yn dal y drwydded C-DSP.

- 6.17 Bydd trwyddedau C-DSP yn mynnu na fydd deiliad y drwydded yn ymrwymo i unrhyw drefniant, neu'n parhau i fod yn destun unrhyw drefniant, sy'n caniatáu i ddeiliad arall trwydded Deddf Darlledu, y BBC neu Awdurdod Cymru, arfer dylanwad gormodol dros natur a chynnwys y rhaglenni sy'n rhan o'r gwasanaeth.

Diffiniad o 'gymuned' a'r gofyniad i ddarparu manteision cymdeithasol

- 6.18 Yng nghyd-destun trwyddedu gwasanaethau C-DSP, mae'r gair "cymuned" yn cael ei ddiffinio gan reoliad 2(1) y Gorchymyn. Mae hyn yn debyg iawn i'r sefyllfa ar gyfer radio cymunedol analog, ond gydag ychydig o addasiad i'r ail ran er mwyn nodi'n glir bod yn rhaid i'r gymuned gyda ddiddordebau neu nodweddion cyffredin fod wedi'i lleoli'n ffisegol o fewn yr ardal neu'r ardal leol benodol:
- "unigolion sy'n byw, yn gweithio neu'n gwneud gwaith neu'n derbyn hyfforddiant mewn ardal neu ardal leol benodol", neu
 - "unigolion sydd, mewn ardal neu ardal leol benodol, ag un neu fwy o ddiddordebau neu nodweddion yn gyffredin".
- 6.19 Mae'n ofynnol i wasanaethau C-DSP dan Reoliad 2(2) y Gorchymyn ddarparu "manteision cymdeithasol" ar gyfer y gymuned neu'r cymunedau a ddisgrifir uchod, drwy gyflawni'r tri amcan canlynol:
- "hwyluso trafod a mynegi barn";
 - "darparu (boed hynny drwy raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth neu fel arall) addysg neu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth"; a
 - "dealltwriaeth well o gymuned benodol a chryfhau cysylltiadau â hi".
- 6.20 Mae'r tri amcan uchod yn adlewyrchiad agos o'r rheini ar gyfer radio cymunedol analog ond, yn bwysig, mae'r amcan ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog sy'n cyfeirio at *"ddarparu gwasanaethau darlledu sain i unigolion sydd fel arall yn cael eu tanwasanaethu gan wasanaethau o'r fath"* wedi cael ei hepgor yn fwriadol ar gyfer gwasanaethau C-DSP. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwynt a nodir uchod nad yw trwyddedau C-DSP yn dod gyda dyraniadau sbectrwm ond eu bod yn dod â chyfle yn lle hynny, ond nid hawl awtomatig, i ddarlledu drwy gapasiti ar wasanaeth amblecs radio ar raddfa fach. Felly nid oes terfyn uchaf yn cael ei osod gan argaeledd sbectrwm ar y nifer sydd wedi'u trwyddedu o fewn ardal leol, a dim cyfyngiad ar wasanaethau C-DSP niferus o fewn ardal leol sy'n ceisio darparu ar gyfer yr un fath o gymuned neu gymuned debyg. Mae hyn hefyd yn golygu, os oes gwasanaethau radio cymunedol analog eisoes yn darlledu mewn ardal, bydd gwasanaethau o'r fath yn gallu gwneud cais am drwydded i ddarlledu'r un gwasanaeth ar DAB yn ogystal ag analog.
- 6.21 Gall amcanion trwyddedai C-DSP hefyd gynnwys cyflawni amcanion eraill o natur gymdeithasol, fel y nodir yn adran 2(3) y Gorchymyn, eto'n adlewyrchu'n agos y sefyllfa ar gyfer radio cymunedol analog:

- “darparu gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill o natur gymdeithasol a lledaenu mwy o wybodaeth yn ehangach ynghylch y gwasanaethau hynny ac ynghylch mwynderau lleol”;
 - “hyrwyddo datblygiad economaidd a mentrau cymdeithasol”;
 - “hyrwyddo cyflogaeth”;
 - “darparu cyfleoedd ar gyfer ennill profiad gwaith”;
 - “hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol”;
 - “hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol”; a
 - “hyrwyddo cyfranogaeth ddinesig a gwirfoddoli”.
- 6.22 Ni ddylai gwasanaethau C-DSP gael eu darparu am resymau masnachol nac er mwyn elw ariannol neu faterol arall i'r unigolion sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth (rheoliad 4(2) y Gorchymyn). Mae Rheoliad 4(4) y Gorchymyn yn mynnu bod unrhyw elw a wneir gan drwyddedai C-DSP yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sicrhau neu wella darpariaeth y gwasanaeth i'r dyfodol, neu ar gyfer darparu manteision cymdeithasol i aelodau'r cyhoedd neu i'r gymuned y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu i'w gwasanaethu.

Prif Ymrwymïadau

- 6.23 Byddai Adran 61B o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei diwygio gan y Gorchymyn yn golygu y byddai'n rhaid i Ofcom gynnwys amodau ym mhob trwydded C-DSP i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth, ac yn benodol cyflawni manteision cymdeithasol, yn cael ei gynnal. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ar gyfer radio cymunedol analog. O ganlyniad, bydd gan bob gwasanaeth C-DSP 'Brif Ymrwymïadau' penodol yn ei drwydded.
- 6.24 Yn fras, bydd Ofcom yn defnyddio dull gweithredu tebyg tuag i strwythur Prif Ymrwymïadau ag yr ydym yn ei gymryd ar hyn o bryd yng nghyswllt gwasanaethau radio cymunedol analog. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau perthnasol rhwng darpariaeth analog a digidol sy'n golygu ein bod ni'n cynnig rhai gwahaniaethau yn y Prif Ymrwymïadau.
- 6.25 Yn gyntaf, yn wahanol i drwyddedau radio cymunedol analog, bydd trwyddedau C-DSP yn caniatáu – ond nid yn mynnu - bod gwasanaeth yn darlledu. Y rheswm am hyn yw y byddai'n rhaid i'r trwyddedai gytuno ar y cludo gyda gweithredwr yr amblecs. Felly, rydym yn bwriadu bod yn glir bod Prif Ymrwymïadau ond yn berthnasol i drwydded C-DSP os yw'r gwasanaeth yn darlledu mewn gwirionedd.
- 6.26 Yn ail, fel y nodir uchod, nid oes cyfyngiad ar nifer y gwasanaethau C-DSP a gaiff eu trwyddedu mewn un ardal leol. Drwy gynyddu'r capasiti ar gyfer gwasanaethau, mae amblecsio radio ar raddfa fach hefyd yn lleihau'n sylweddol (ond nid yn cael gwared yn llwyr) ar gyfyngiadau argaeledd sbectrwm ar nifer y gwasanaethau cymunedol a masnachol mewn ardal leol. Gan adlewyrchu hyn, mae'r Gorchymyn yn dileu'r gofyniad sy'n ymwneud â “darparu gwasanaethau darlledu sain i unigolion nad ydynt fel arall yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan wasanaethau o'r fath”.
- 6.27 Er ei bod yn dal yn wir fod dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan Ddeddf 2003 yn cyfeirio at yr angen i sicrhau argaeledd “amrywiaeth eang” o wasanaethau, mae'r ffordd yr ydym yn bwriadu cyflawni hyn mewn perthynas â'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar

wasanaethau C-DSP yn canolbwyntio mwy ar gapasiti (gan gynnwys creu lle ar amlblecsau ar raddfa fach a chadw capasiti o'r fath wrth gefn) yn hytrach na thrwy Brif Ymrwymadau gweddol ragnodol sy'n ymwneud â chynnyrch gorsaf ar yr awyr.

- 6.28 Am y rheswm hwnnw, rydym yn cynnig y dylai Prif Ymrwymadau mewn trwyddedau C-DSP ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu 'manteision cymdeithasol'¹⁵, atebolrwydd i'r gymuned darged a'r gallu i aelodau o'r gymuned honno gymryd rhan yn y gwasanaeth. O'i gymharu â radio cymunedol analog, byddwn yn canolbwyntio llai ar y gofynion ar gyfer rhaglenni penodol, er y bydd dal angen i'r Prif Ymrwymadau gynnwys disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth (gweler paragraff 6.29, isod). Mae'r dull hwn yn fwy cyson â'r 'disgrifiadau gwasanaeth' sy'n ofynnol ar hyn o bryd dan drwyddedau DSP, a hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod rhagnodi ar gyfer gofynion allbwn rhaglenni penodol yn golygu adnoddau sylweddol i orfodi, a gallai hyn fod yn anghymesur pan fydd nifer y gwasanaethau cymunedol yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i gynyddu'r capasiti sydd ar gael o ganlyniad i amlblecs ar raddfa fach.
- 6.29 Rydym yn cynnig y bydd angen i'r Prif Ymrwymadau mewn trwyddedau C-DSP gynnwys:
- Enw'r gwasanaeth¹⁶
 - Y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y caiff y gwasanaeth C-DSP ei gludo arno
 - Disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth, gan gynnwys:
 - a) Y gymuned darged;
 - b) Lleoliad y gymuned darged (a all fod yn ardal lai na'r un a wasanaethir gan wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'n bwriadu sicrhau cludiant arno)
 - c) Disgrifiad o brif bwrpas y gwasanaeth radio, a'i brif swyddogaeth neu weithgareddau.
- 6.30 Fel gyda'r trwyddedau radio cymunedol analog presennol, bydd Prif Ymrwymadau 'safonol' mewn perthynas â darparu i'r gymuned darged manteision cymdeithasol, atebolrwydd a chyfleoedd i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai deiliaid trwyddedau C-DSP niferus nodi y bydd angen i gyflawni'r Prif Ymrwymadau ar gyfer pob trwydded unigol (er enghraifft, cyfleoedd i aelodau o'r gymuned leol i gymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth) fod yn benodol i bob trwydded a'r ardal leol a'r gymuned benodol sy'n cael eu gwasanaethu.
- 6.31 Gan fod rhaid i drwyddedau C-DSP ddarparu manteision cymdeithasol a chyfleoedd i gymryd rhan ar gyfer y gymuned darged, a bod yn atebol iddi, rydym o'r farn y dylai'r Prif Ymrwymadau nodi, fel y maent yn ei wneud ar gyfer radio cymunedol analog, bod y stiwdio y darlledir y gwasanaeth ohoni wedi'i lleoli o fewn ardal darpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y caiff ei gludo arno.

¹⁵ Caiff ei ddiffinio fel hyrwyddo trafodaeth a mynegi barn; darparu addysg neu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn gyflogedig gan yr unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth; a gwell dealltwriaeth o'r gymuned benodol a chryfhau cysylltiadau oddi mewn iddi.

¹⁶ Nid oes gan Ofcom awdurdodaeth dros nodau masnach nac eiddo deallusol, felly nid yw rhoi gwybod i Ofcom am enw gorsaf yn cadarnhau'r hawl i'w defnyddio. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio goblygiadau cyfreithiol defnyddio enw gorsaf penodol. Ni fydd Ofcom yn caniatáu enwau a all achosi tramgwydd neu ddryswch gyda gwasanaethau radio sydd eisoes yn darlledu yn yr un ardal.

Cwestiwn 7: A ddylai Ofcom ei gwneud yn ofynnol i stiwdio trwyddedai C-DSP gael ei lleoli yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach y mae'n bwriadu darlledu arno? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

Cyfyngiadau cyllido

- 6.32 Mae Adran 61A o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn sôn am gyfyngiadau hysbysebu a nawdd. Byddai'n rhaid i Ofcom sicrhau bod gan drwyddedau C-DSP gyfyngiadau tebyg i'r rhai sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog sy'n ymwneud â faint o incwm y gallant ei gael drwy werthu nawdd a hysbysebion ar yr awyr.
- 6.33 Pan fydd trwyddedai'n dal trwyddedau C-DSP a radio cymunedol analog cyfatebol (a ddiffinnir yn adran 61A(7) lle mae 80% o orgyffwrdd rhwng cynnwys rhaglenni, gydag o leiaf 50% yn cael eu darlledu ar yr un pryd), bydd y rheolau cyllid yn berthnasol ar draws y trwyddedau analog a C-DSP gyda'i gilydd, yn hytrach nag ar wahân. Hynny yw, byddai'r un "lwfans referniw sefydlog" o £15,000 yn berthnasol i'r gwasanaethau cyfun, a byddai incwm perthnasol o hysbysebion a nawdd a fyddai dros y terfyn hwnnw wedi'i gyfyngu i 50% o gyfanswm yr incwm perthnasol ar draws y naill wasanaeth a'r llall. Rydym yn cynnig felly y dylai'r gwasanaethau cyfatebol gofnodi eu hincwm gyda'i gilydd mewn un adroddiad ariannol blynyddol.

Dosbarthu incwm ar gyfer trwyddedeion DSP

- 6.34 Pan fydd gan drwyddedai drwydded radio cymunedol analog a DSP (yn hytrach na C-DSP) ar gyfer gwasanaeth cyfatebol (o dan y diffiniad y cyfeirir ato ym mharagraff 6.33) rydym yn meddwl y dylai'r trwyddedai ddosbarthu ei incwm yn gyfartal ar draws ei drwyddedau analog a digidol (oni bai fod ganddynt resymau cryf dros ddadlau y dylid dosbarthu eu hincwm mewn ffordd wahanol).
- 6.35 Yng ngoleuni cyflwyno trwyddedau C-DSP, rydym yn cynnig cyflwyno'r rheol hon er mwyn helpu i sicrhau bod y rheolau cyllido sy'n ymwneud â gwasanaethau radio cymunedol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol mewn ffordd deg, ac yn unol â deddfwriaeth. Er enghraifft, yn ein barn ni ddylai rhywun sy'n dal trwydded radio cymunedol analog ac sydd hefyd yn dal trwydded DSP gyfatebol ar gyfer darlledu'r gwasanaeth rhaglenni hynny ar yr un pryd ar DAB, allu hawlio bod ei holl incwm o hysbysebion a nawdd yn dod o'r drwydded DSP (sydd, yn wahanol i'r drwydded radio cymunedol analog, heb unrhyw gyfyngiadau o ran incwm o hysbysebion a nawdd).
- 6.36 Ni fyddai'n rhaid i drwyddedeion DSP ofyn am unrhyw ganiatâd ymlaen llaw i wyro oddi wrth ddosbarthu cyfartal. Fodd bynnag, os ydynt wedi gwyro oddi wrtho, dylai'r trwyddedeion allu egluro, petai angen, pam fod y dosbarthiad yn rhesymol, a darparu tystiolaeth i gefnogi hyn.

Cwestiwn 8: Rydym yn cynnig y dylai deiliaid trwyddedau DSP a radio cymunedol analog cyfatebol rannu eu hincwm yn gyfartal ar draws eu trwyddedau, oni bai fod rhesymau cymhellol pam bod rhannu mewn ffordd wahanol yn rhesymol. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu a awgrymwyd gennym?

Prif amodau trwydded eraill

- 6.37 Mae'r Gorchymyn yn cynnig cymhwyso adran 43 o Ddeddf 1996 heb addasiad i wasanaethau C-DSP ac, o'r herwydd, byddai nifer o amodau trwydded cyffredinol yn berthnasol i wasanaethau C-DSP fel y maent yn berthnasol i wasanaethau radio cymunedol analog a DSP. Daw hyn o dan ddarpariaethau gwahanol, ond cysylltiedig, Deddf Darlledu 1990 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004.
- 6.38 Bydd yn rhaid i drwyddedeion C-DSP gydymffurfio â [Chod Darlledu Ofcom](#) fel y mae'n berthnasol i bob gwasanaeth radio darlledu. Ymysg darpariaethau eraill mae'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â safonau golygyddol a chynnwys masnachol. Bydd yn rhaid i'r rheini sy'n dal trwyddedau C-DSP hefyd gydymffurfio â [Chod Darlledu Hysbysebion y DU](#). Mewn rhai amgylchiadau, gellir rhoi sancsiynau statudol os bydd amodau trwydded (gan gynnwys rheolau'r Cod) yn cael eu torri. Gall y rhain gynnwys gofyniad i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau, cosb ariannol, neu atal neu ddirymu trwydded. Bydd hefyd yn rhaid i drwyddedeion gadw recordiad o'u holl allbwn darlledu a deunyddiau ategol am gyfnod o 42 diwrnod a'u rhoi i Ofcom ar gais.
- 6.39 Yn yr un modd â thrwyddedau eraill bydd trwyddedau C-DSP hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n mynnu bod y trwyddedai yn rhoi gwybodaeth i Ofcom er mwyn i ni gyflawni ein swyddogaethau o dan y Deddfau Darlledu, y Ddeddf Cyfathrebiadau a'r Gorchymyn. Mae hyn yn cynnwys darparu dogfennau fel amcangyfrifon a ffurflenni cyfrifon, hysbysiad ymlaen llaw o newid rheolaeth, ac adroddiadau blynyddol. Ar ôl iddynt fod yn darlledu am fwy na blwyddyn, bydd yn rhaid cael adroddiad cyllid blynyddol gan bob trwyddedai. Bydd hyn yn galluogi Ofcom i weld a yw'r gorsafoedd yn gweithredu o fewn terfynau'r drwydded a nodir yn amodau eu trwydded. Bydd Ofcom yn mynnu bod trwyddedeion yn defnyddio ffurflen a roddir gennym ar gyfer yr adroddiad ariannol hwn.
- 6.40 Bydd hefyd yn rhaid i drwyddedeion gadw gwybodaeth ddiweddar ynghylch sut maent yn cyflawni eu Prif Ymrwymadau, petai angen i Ofcom weld yr wybodaeth hon. Bydd yn rhaid i bob trwyddedai C-DSP dalu ffi flynyddol i Ofcom. Bydd hon yn cael ei rhestru yn ein tariff o ffioedd a gyhoeddir. Bydd Ofcom yn newid y rhain o bryd i'w gilydd.
- 6.41 Rydym yn cynnig mai £100 fydd y tariff blynyddol ar gyfer trwydded C-DSP. Bydd ffi'r drwydded flynyddol yn daladwy tra bydd y drwydded C-DSP wedi'i chyhoeddi, p'un a oes gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ai peidio. Ni chodir ffi am amrywio neu drosglwyddo trwyddedau C-DSP.

Amrywio, trosglwyddo ac ildio trwyddedau

- 6.42 Os bydd rhywun sy'n dal trwydded C-DSP yn dymuno ei hamrywio, y Prif Ymrwymiadau yn bennaf, byddai angen iddo ofyn i Ofcom a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig. Gall Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid, ond mae'n rhaid iddo fod yn fodlon na fydd y newid yn addasu cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol gan ystyried y meini prawf dethol.
- 6.43 Pan fydd Ofcom yn credu y byddai newidiadau arfaethedig yn addasu cymeriad presennol y gwasanaeth yn sylweddol, byddai angen i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni wneud cais am drwydded C-DSP newydd sy'n adlewyrchu'r newidiadau a geisir (ac ildio'r hen drwydded). Mae hyn yn wahanol, felly, i'r broses ar gyfer trwyddedau radio cymunedol analog, lle mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymgyngoriad cyhoeddus ar newidiadau i'r Prif Ymrwymiadau rydym yn meddwl a fyddai'n newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod trwyddedau radio cymunedol analog yn cael eu dyfarnu drwy gystadlaethau 'parêd harddwch', ond bydd trwyddedau C-DSP yn cael eu cyhoeddi yn ôl y gofyn, ar yr amod bod y ceisiadau'n diwallu'r meini prawf trwyddedu angenrheidiol (gweler Adran 7).
- 6.44 Yn yr un modd, bydd yn rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Ofcom er mwyn trosglwyddo trwydded C-DSP o un corff i'r llall. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan na chawn roi caniatâd oni bai ein bod yn fodlon bod yr unigolyn (corff neu gwmni) y bwriedir trosglwyddo'r drwydded iddo mewn sefyllfa i gydymffurfio â holl amodau'r drwydded gydol gweddill cyfnod y drwydded. Dim ond y sawl sy'n dal y drwydded ar yr adeg honno sy'n cael gwneud cais i drosglwyddo trwydded, a bydd gofyn i'r unigolyn y bwriedir trosglwyddo'r drwydded iddo ddarparu gwybodaeth am y cwmni neu'r corff a fydd yn dal y drwydded, tystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael i ddeiliad newydd y drwydded er mwyn cynnal y gwasanaeth wrth fynd ymlaen, a gwybodaeth arall fel yr ystyrir yn briodol gan Ofcom adeg y cais. Mae'r Gorchymyn yn rhoi'r pŵer i Ofcom ddyfarnu trwydded C-DSP sy'n dal mewn grym am gyfnod amhenodol. Os bydd deilydd trwydded yn dymuno ildio ei drwydded unrhyw bryd, caiff wneud hynny.

Darpariaeth a materion technegol

- 6.45 Y ddarpariaeth a gyflawnir gan wasanaeth C-DSP fydd darpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn cael y mae'n cael ei gludo arno.
- 6.46 Bydd angen i drwyddedeion C-DSP gytuno ar y trefniadau technegol gyda thrwyddedai'r amlblecs er mwyn darparu eu gwasanaeth rhaglenni i'r amlblecs. Yn nodweddiadol bydd y trefniadau hyn yn cynnwys sut a ble fydd y gwasanaeth rhaglenni C-DSP yn cael ei ddarparu i weithredwr yr amlblecs, a'r fformat technegol y bydd yn cael ei ddarparu ynddo.

7. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: ymgeisio a dyfarnu

- 7.1 Ni fydd y broses o ddyfarnu trwyddedau C-DSP yn golygu cystadleuaeth rhwng ymgeiswyr. Y rheswm dros hyw yw na chaiff trwydded C-DSP ei dyfarnu gydag unrhyw ddyraniad sbectrum, ac nid oes cyfyngiad ar nifer y trwyddedau C-DSP mae modd eu dyfarnu mewn ardal leol. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhaid i Ofcom ystyried rhai materion a bennir yn y Gorchymyn wrth benderfynu a ddylid dyfarnu trwydded C-DSP ai peidio. Ni ddylid tybio y bydd Ofcom yn dyfarnu trwydded C-DSP i bawb sy'n ymgeisio am un; mae trwyddedau yn rhoi mynediad at gapasiti wrth gefn ar amblecsau ar raddfa fach ac mae hi'n bwysig bod y gwasanaethau sy'n gweithredu o dan y trwyddedau C-DSP yn cynhyrchu'r manteision cymdeithasol angenrheidiol i gyfiawnhau'r statws hwnnw.
- 7.2 Yn yr adran hon rydym yn disgrifio sut rydym yn cynnig gwahodd ceisiadau am drwyddedau C-DSP, a'r broses rydym yn bwriadu ei dilyn wrth ystyried ceisiadau a phenderfynu a fydd trwyddedau'n cael eu dyfarnu ai peidio.

Gwneud cais am drwydded C-DSP

- 7.3 Fel yr eglurir yn Adran 4, rydym yn bwriadu trwyddedu'r gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach mewn sypiau.
- 7.4 Rydym yn cynnig y bydd darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP yn gallu gwneud cais am drwydded C-DSP ar ôl i ni wahodd ceisiadau am y drwydded amblecs radio ar raddfa fach y bwriedir i'w gwasanaeth C-DSP arfaethedig gael ei ddarlledu arni. Bydd gwneud hyn yn ein helpu ni i brosesu ceisiadau'n gyflymach nag y byddem yn gallu ei wneud pe na bai cyfyngiadau ynghylch pryd y gellid cyflwyno ceisiadau am drwyddedau C-DSP. Mae hefyd o fantais i ddarpar wasanaethau C-DSP nad oes yn rhaid iddynt wneud cais a thalu ffioedd trwydded cyn i'r drwydded ar gyfer yr amblecs y gallai fod arnynt eisiau darlledu arno gael ei hysbysebu hyd yn oed, heb sôn am ei lansio.
- 7.5 Efallai y bydd darpar ddarparwyr gwasanaethau C-DSP eisiau disgwyl nes iddynt wybod yn bendant bod y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach y mae arnynt eisiau darlledu arno wedi cael trwydded amblecs radio ar raddfa fach (hy peidio â gwneud cais yn syth ar ôl i'r drwydded amblecs honno gael ei hysbysebu). Ond rydym yn cydnabod hefyd y gallai fod rhai darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP a fyddai'n ffafrio cael trwydded C-DSP ar y cyfle cyntaf, hyd yn oed os nad ydynt yn gwybod a fydd y gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach y maent yn dymuno cael eu darparu arno yn cael trwydded.
- 7.6 Nid ydym yn cynnig cau'r "ffenestr" ar gyfer ceisiadau C-DSP ar ôl ei hagor, oni bai na allwn ddyfarnu trwydded amblecs ar raddfa fach ar ôl yr hysbyseb. Y rheswm dros hyn yw y gallai gwasanaethau C-DSP newydd ddod i'r fei unrhyw bryd ar ôl lansio amblecs ar raddfa fach.

- 7.7 Rydym yn meddwl bod y dull gweithredu rydym yn ei gynnig yn cyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng y ddau ddewis posibl yma, ar yr un pryd â sicrhau nad yw trwyddedu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach yn cael ei lesteirio gan yr angen i brosesu llawer iawn o geisiadau am drwyddedau C-DSP.
- 7.8 Mae ein cynnig yn golygu y gallai darpar ymgeiswyr wneud cais am drwydded C-DSP naill ai cyn neu ar ôl dyfarnu'r drwydded ar gyfer yr amblecs radio ar raddfa fach cyfatebol. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar lefel y galw, mae'n bosibl i ymgeiswyr am drwydded C-DSP sy'n cyflwyno cais ar ôl dyfarnu trwydded amblecs radio ar raddfa fach fod mewn perygl y gallai'r trwyddedai amblecs fod eisoes wedi dyrannu'r capasiti a gedwir.
- 7.9 Rydym yn cydnabod y gallai amseru cael trwydded C-DSP fod yn bwysig o ran sicrhau cytundeb gyda gweithredwr amblecs ar raddfa fach i gael mynediad at gapasiti a gedwir, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw yn weddol uchel, a heb ystyried y bydd Ofcom yn ceisio adlewyrchu ystyriaethau o'r galw a ddisgwylir wrth bennu'r lefel a gedwir ar amblecs penodol ar raddfa fach. Rydym felly'n bwriadu prosesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP ym mhob swp, ar sail y cyntaf i'r felin.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y bydd darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP yn gallu gwneud cais am drwydded C-DSP unwaith y byddwn wedi gwahodd ceisiadau am y drwydded amblecs radio ar raddfa fach y bwriedir i'w gwasanaeth C-DSP arfaethedig gael ei ddarparu arno?

Asesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP

- 7.10 Ar gyfer pob cais am drwydded C-DSP, bydd angen i ni asesu a yw cynigion yr ymgeisydd yn diwallu nodweddion angenrheidiol gwasanaeth C-DSP fel y nodir yn y Gorchymyn.
- 7.11 Mae Adran 60(6) o Ddeddf 1996 fel y cynigir ei haddasu gan y Gorchymyn yn datgan ei bod yn rhaid i Ofcom, wrth bennu a yw am ddyfarnu'r drwydded dan sylw, ystyried i ba raddau:
- “y byddai darparu'r gwasanaeth arfaethedig yn arwain at sicrhau manteision cymdeithasol i'r cyhoedd neu i'r gymuned berthnasol”;
 - “mae aelodau'r gymuned berthnasol yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o redeg a rheoli'r gwasanaeth arfaethedig”; ac
 - “mae'r ymgeisydd yn atebol i'r gymuned berthnasol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth arfaethedig”.
- 7.12 Mae'r “gymuned berthnasol” yn cael ei diffinio yn adran 72 fel y cynigir ei diwygio gan y Gorchymyn fel “y gymuned neu'r cymunedau y bwriedir i'r gwasanaeth eu gwasanaethu”.
- 7.13 Mae'r paragraffau canlynol isod yn nodi sut rydym yn cynnig gwerthuso'r meini prawf hyn yn y broses o ddyfarnu'r drwydded.

Darparu manteision cymdeithasol

- 7.14 Pan fyddwn yn ystyried a ydym am ddyfarnu trwydded C-DSP, bydd Ofcom yn asesu hyd a lled y manteision cymdeithasol sy'n cael eu cynnig. Felly, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu

hannog i nodi'r hyn maent yn bwriadu ei wneud, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw bartneriaethau arfaethedig gyda grwpiau neu asiantaethau eraill, gan gyfeirio at eu profiad eu hunain mewn hyfforddiant a gweithgareddau manteision cymdeithasol eraill.

- 7.15 Er y bydd y trwyddedau C-DSP yn cael eu dyfarnu drwy broses nad yw'n un gystadleuol ac felly ni fyddwn yn pwysoli'r manteision cymdeithasol a ddarperir gan yr ymgeisydd yn erbyn yr hyn a ddarperir gan eraill, rydym yn ymwybodol bod trwydded C-DSP yn golygu mynediad at gapasiti wrth gefn, ac felly byddem yn disgwyl i bob trwyddedai o'r fath ddangos yn glir sut mae eu gwasanaeth yn darparu manteision cymdeithasol sylweddol. Drwy wneud hynny, rydym yn nodi nad ydy trwydded C-DSP o reidrwydd yn amod i gael gafael ar yr haen amlblecs ar raddfa fach; mae'r rheini nad ydynt yn gallu dangos manteision cymdeithasol fel sy'n cael eu diffinio yn y Gorchymyn yn dal yn cael gwneud cais am drwyddedau DSP.

Cyfranogiad yn y gwaith o weithredu a rheoli gwasanaethau

- 7.16 Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn ystyried i ba raddau y mae cynigion ymgeisydd yn rhoi cyfleoedd i aelodau'r gymuned berthnasol gymryd rhan yn y gwaith o weithredu a rheoli'r gwasanaeth arfaethedig. Er enghraifft, gallai cais nodi sut gall grwpiau neu unigolion o'r gymuned darged gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol yn yr orsaf, a sut gall gwirfoddolwyr gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r gwasanaeth.
- 7.17 Fel y nodir uchod, rydym yn bwriadu i'r Prif Ymrwymadau ar gyfer gwasanaethau C-DSP fod yn llai rhagnodol yn gymharol mewn perthynas â chynnwys na'r rheini ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi mwy o ffocws ar gyfranogiad (ac atebolrwydd fel y nodir isod) a byddem felly'n disgwyl datganiad clir ynghylch sut bydd hyn yn cael ei sicrhau a sut bydd yr ymgeisydd yn dangos ei fod yn cael ei gyflawni wrth ddarlledu.
- 7.18 Oherwydd y gofynion hyn, rydym yn credu ei bod hi'n briodol mynnu bod prif stiwdio'r ymgeisydd yn yr ardal leol. Bydd y gofyniad hwn yn rhan o Brif Ymrwymadau'r trwyddedai. (Gweler cwestiwn yr ymgynghoriad am y cynnig hwn yn Adran 5).

Atebolrwydd

- 7.19 Bydd yn rhaid i Ofcom ystyried sut y mae ymgeisydd yn cynnig gwneud ei hun yn atebol i'r gymuned berthnasol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth mae'n ei gynnig. Bydd angen i ymgeiswyr nodi'n glir sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r gofyniad hwn, gan gynnwys cyfeirio at y ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol y byddant yn atebol i'w cymuned darged.
- 7.20 Fel y nodir uchod mewn perthynas â chyfranogiad, bydd ffocws penodol mewn perthynas â gwasanaethau C-DSP ar gyfranogiad ac atebolrwydd, felly byddid yn disgwyl i ymgeiswyr ddarparu manylion ynghylch sut bydd hyn yn cael ei sicrhau a'i fesur.

Dal nifer o drwyddedau

- 7.21 Yn wahanol i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog, nid oes cyfyngiad ar ddal mwy nag un drwydded C-DSP. Mae hi'n bwysig felly pwysleisio y bydd asesiad Ofcom yn ymwneud â sut mae cais yn darparu manteision cymdeithasol, cyfranogiad ac atebolrwydd yn ychwanegol at hynny sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan y trwyddedau eraill sy'n cael eu dal gan yr ymgeisydd neu unigolion cysylltiedig.
- 7.22 Er enghraifft, ni fyddai gwasanaeth C-DSP sy'n gweithredu mewn un ardal leol sy'n dymuno cynnig gwasanaeth tebyg mewn ardal gymdogol yn gallu dibynnu ar barhau i ddarparu manteision cymdeithasol, cyfranogiad ac atebolrwydd yn yr ardal wreiddiol. Byddai angen iddo ddangos manteision ychwanegol sylweddol, yn enwedig drwy gyfeirio at yr aelodau hynny o'r gymuned sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn yr ardal newydd. Lle na all wneud hynny, efallai y bydd ar y gwasanaeth dal eisiau cynnig y gwasanaeth yn yr ardal gymdogol, ond byddai angen i hyn fod drwy drwydded DSP leol.

Llenwi'r ffurflen gais

- 7.23 Bydd y ffurflen gais yn cynnwys y manylion llawn ynghylch sut dylid cyflwyno cais am drwydded C-DSP. Bydd y cwestiynau a ofynnir yn y ffurflen gais a'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'u dylunio er mwyn galluogi Ofcom i ystyried cynigion ymgeisydd yn erbyn yr amrywiol ofynion deddfwriaethol.
- 7.24 Ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i'r sawl sy'n ymgeisio am drwydded C-DSP ddisgrifio'r gymuned darged mae arnyn nhw eisiau ei gwasanaethu. Oherwydd bod y diffiniad o "gymuned" yn y Gorchymyn yn cynnwys cyfeiriad at "ardal neu ardal leol benodol", bydd angen i Ofcom wybod pa ardal neu ardal leol y mae'r ymgeisydd am drwydded C-DSP yn bwriadu ei gwasanaethu, o fewn ardal ddarpariaeth yr amlblecs. Mae hefyd angen i ymgeisydd C-DSP enwebu'r gwasanaeth amlblecs radio mae'n dymuno cael ei gludo arno yn ei gais, a disgrifio'n glir y gymuned darged yn ei Brif Ymrwymadau.
- 7.25 Ni fydd rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnir i ymgeiswyr ei ddarparu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau darlledu ar yr awyr. Er enghraifft, gan ystyried gofynion o ran atebolrwydd, gallwn ofyn sut y bydd awgrymiadau neu feirniadaeth gan aelodau o'r gymuned darged yn yr ardal ddarlledu yn cael eu hystyried a sut y gweithredir arnynt.
- 7.26 Fel rhan o'r cais, bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddrafftio eu 'Prif Ymrwymadau' eu hunain (gweler paragraffau 6.23 i 6.31). Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y drwydded C-DSP os bydd y cais yn llwyddiannus. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn rhaid i Ofcom addasu'r Ymrwymadau Drafft ar ôl dyfarnu'r drwydded er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a'u bod yn diwallu'r gofynion deddfwriaethol.
- 7.27 Ar ddiwedd y ffurflen gais, bydd gofyn i'r ymgeiswyr wneud a llofnodi 'Datganiad Gwreiddiol' i Ofcom ynghylch amrywiol faterion cyfreithiol sy'n ymwneud â chorff yr ymgeisydd a'i gyfranogwyr. Diben hyn yw er mwyn i ni allu gwirio a ydym yn gallu rhoi trwydded i'r ymgeisydd, os bydd eu cais yn llwyddiannus.

Ffi ymgeisio

- 7.28 Bydd gofyn i bawb sy'n ymgeisio am drwydded C-DSP dalu ffi ymgeisio na fydd modd ei had-dalu. Bydd y ffi honno'n cael ei rhestru yn ein tariff o ffioedd a gyhoeddir. £250 fydd y ffi hon.